YR YMOFYNYDD.

RHIF. 18.] CHWEFROR, 1849. [CYF. II.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD, ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—GOL.

Y PAB A PHABYDDIAETH.

Y mae yr enw *Pab*, yn Lladin *Papa*, yn arwyddo "Tad." Enw o barch ydoedd a roddid yn ddechreuol ar esgob Rhufain, ac esgobion eraill, y rhai a ddewisid gan yr eglwysi, o herwydd eu duwioldeb a'u cymmwysder, i flaenori arnynt ac i *arolygu* y praidd. Wedi hyny, dros ryw amser, cyfyngid yr enw (Pab) i esgobion y prif-ddinasoedd, a thaleithiau eang (Metropolitan). O'r diwedd cymerodd Esgob Rhufain yr enw yn gwbl iddo ei hun, y pryd y cymerodd arno i fod yn benaeth ysbrydol ar holl eglwysi Crêd. Hyny a fu tua dechreu y Seithfed Ganrif. Yr oedd eisioes wedi ennill yr uchafiaeth ar y prif esgobion eraill. O hyny allan aeth ymlaen yn fwy fwy ar gynnydd yn ei honiadau a'i awdurdod, o oes i oes, nes cyrhaeddyd o'r diwedd gyflawnder ei rwysg a'i draws-awdurdod "Anghristaidd" yn yr 11eg. ganrif dan Bab *Gregory* VII, yr hynod *Hildebrand.*

Ond cymeryd cip-olwg ar hanes yr Eglwys o'i hamser boreuol pan ydoedd dan erledigaeth, hyd tua diwedd y canoloesoedd, pan yr oedd Pabyddiaeth wedi dyfod i'w chyflawn-oed a grym, ymhlith pethau rhyfedd eraill nid oes dim yn peri mwy o syndod nâ'r cyfnewidiad anferthol a gymerodd le yn nghyflwr, ac urddas ac awdurdod esgobion Rhufain.

Y rhai oeddent gynt ymhlith y rhai ag oedd yn cael eu dirmygu a'u herlyd gan benaethiaid y ddaear, yn awr wedi dyfod yn dywysogion tymhorol a'r gwaethaf o erlidwyr! Mor gwbl anhebyg, mewn buchedd ac mewn athrawiaeth, i esgobion yr eglwys gyntefig!

Pa fodd y daethpwyd â hyn oddi amgylch? Pwy allasai ragweled y byddai i gyfnewidiad mor fawr ac mor anhebygol, i gymeryd lle; a dirywiad mor bell oddiwrth burdeb a symlrwydd yr Efengyl! Etto, ni ddiangodd rhag llygad treiddiol ysbryd proffwydoliaeth. Rhybuddiwyd am dano yn fore, fel y cawn sylwi maes o law: a rhagddywedwyd yn bur eglur ac yn bendant am ymddangosiad a chynnyddiad "dyn pechod."

Gofynir fe allai yn y fan yma, os yw Duw yn gofalu am ei eglwys (fel y credwn ei fod) paham na ddarfu iddo rwystro y fath ddirywiad, neu ddiddymu yr Anghrist ar ei ymddangosiad? Cyn cynnyg atebiad teg fyddai sylwi, y gellid cyfodi cwestiynau yr un mor anhawdd eu hateb, ar dir crefydd *naturiol:* megis, os yw yr anfeidrol ddoeth a daionus yn gofalu am ddynolryw (fel yn ddiau ei fod) paham na fuasai yn trefnu pethau yn y fâth fodd, fel na fyddai i newyn na heintiau, na thrawsder, na rhyfeloedd na drygau o'r fath i gymeryd lle ar y ddaear? Neu paham na ddarfu i'r Holl-alluog wneuthur dynion a'u hamgylch-

iadau rhyw raddau yn fwy perffaith nag y maent? Ac hyd yn oed pe buasai Duw *wedi* en gwneuthur yn fwy perffaith *i'r graddau gofynedig;* gellid gofyn yr un cystal, paham nad yn beffeithiach etto? Ac felly yn y blaen yn ddiorphen, hyd nes gofyn, paham nas gwnaeth ei greuaduriaid yn berffaith fel ef ei hun? A chyda hyny, ond odid, fe welid gwrthuni ac ynfydrwydd y gofyniad.

Ond gan adael y fâth gwestiynau, crefwn sylw y darllenydd at ffeithiau sicr ac adnabyddus.

Y mae Duw yn llywodraethu y byd trwy gyfreithiau sefydlog—y byd moesol a meddyliol, fel y byd allanol. Ni wna ffolineb ac amryfusedd dynion ddim gwrthbrofi ei ddaioni a'i ddoethineb ef, yn fwy nag y gwna daear-grynfâu a thymestloedd. Er dim a wyddom ni i'r gwrthwyneb y mae y naill fel y llall yn anocheladwy yn ôl y drefn a welodd doethineb perffaith yn orau ar y cyfan.

Pwy feiddia ddywedyd y buasai y drefn yn well pe na bai cyfreithiau'r meddwl dynol yn sefydlog ac yr un yn mhob oes? Onid yw y dirywiad a gymerodd le ar Grist'nogrwyd yn nwylaw rhai o'i phroffeswyr boreuol a'r llygriadau canlyniadol, yn rhybudd i Gristnogion yr oes hon i fod yn ochelgar yn erbyn y cyffelyb brofedigaethau—i beidio a cheisio lliwio y gwir er mwyn ei wneud yn foddhâol i'r byd; ond i gadw yn ffyddlon gyda phurdeb a symlrwydd yr Efengyl?

Yr ydym ni yn credu yn nwyfoldeb yr efengyl, ac ei bod "er iechawdwriaeth i bob un ag sy'n credu;" ond credwn hefyd ei bod yn effeithio ar feddyliau a chalonau dynion yn ol *cyfreithiau sefydledig;* a bod ei heffeithioldeb yn ymddibynu ar yr *amgyffrediad* o'i gwirioneddau a'r derbyniad a roddir iddynt. Pe buasai meddyliau dynion ar y dechreu yn rhydd oddiwrth ragfarnau a chyfeiliornadau, ac wedi eu cwbl-barotöi i amgyffred a derbyn y gwirionedd yn y cyssondeb a'r purdeb o hono, ni fuasai cymaint o eisiau Crist'nogrwydd arnynt. Ond nid felly yr oedd. Yr oedd "efrau" eisioes yn y "maes lle yr hauwyd yr hâd da." Pan drôdd Philosophyddion Paganaidd at Gristnogrwydd, ymlusgodd peth o'u hen philosophi i mewn gyda hwynt. A phan ddaeth mawrion y byd hwn i bleidio'r grefydd, daeth bydoldeb hefyd i mewn ac aeth ar gynnydd yn yr eglwys.

Nid y'm ni yn ei weled yn un diraddiad o'r efengyl, fel sefydliad dwyfol, ei bod i weithio ei ffordd yn y byd yn unol â chyfreithiau sefydlog y meddwl dynol, a bod gweithrediadau *eraill* gwahanol iddi ar waith, yn tarddu oddiar amgylchiadau naturiol, gan ba rai yr oedd meddyliau dynion yn mhob oes yn agored mwy neu lai i gael eu heffeithio.

I ddychwelyd bellach at ein testun. Cawn weled wrth olrhain hanes yr eglwys, fod y llygriadau mewn athrawiaeth a dysgyblaeth eglwysig, yn myned yn mlaen ar gynnydd cyfartal, gydâg honiad ac ychwanegiad awdurdod gormesol Esgob Rhufain—fod yr olaf yn rhyw fâth o *index* neu arwydd-nod o'r blaenaf, ac yn cynnyddu yn gyfatebol i bellder y dirywiad, fel y mae y cysgod yn estyn fwy fwy o flaen machludiad yr haul.

Y Pabyddion, rhaid cofio, a honant mai nid dirywiad ydoedd hyn, ond *perffeithiad* yr eglwys—rhyw ddadblygiad *(developement)* o'i hansawdd priod, yn cael ei ddwyn yn mlaen gan ragluniaeth fel yr oedd amgylchiadau y byd yn caniatâu. Dyma y sail ar ba un y gosodant awdurdod y Pab i sefyll: sef, ei fod yn olynydd *(successor)* yr Apostol Pedr, i'r hwn y rhoddwyd gan Grist "agoriadau teyrnas nefoedd" (Matt. xvi. 19.) Ond gan nad ydym yn awr yn bwriadu myned i ddadl â'r Pabyddiou nac â neb ag sy'n dàl wrth olynyddiaeth Apostolaidd, gadawn yr honiad gydâ dau neu dri sylw byr a ymddangosant i ni yn ddigonol ar y pwngc.

Ac yn gyntaf. Pa beth bynag sydd i'w feddwl wrth "agoriadau teyrnas nefoedd," ymddengys nad yw yr addewid a gynwysir yndynt, i gael ei gyfyngu i Pedr. Mae'n amlwg fod yr un

neu gymaint awdurdod yn cael ei addaw yn y geiriau canlynol, "a pha beth bynag a rwymech ar y ddaear a fydd rwymedig yn y Nefoedd &c." Ac yn Matt. xviii. 18. defnyddir yr un geiriau am yr awdurdod addawedig i'r Apostolion oll, os nad am wir ddysgyblion yn gyffredin. 2. Yr y'm yn cael na ddarfu i Pedr *ei hun* honi y fath uchafiaeth, na dim uchafiaeth ar yr Apostolion eraill. 3. Dywed Paul (Gal. ii. 11) iddo, "wrthwynebu Pedr yn ei wyneb, am ei fod i'w feio;" ac yn 2 Cor. xi. 5 hona nad oedd efe "ddim yn ôl i'r Apostolion penaf." 4. Er ei fod yn debygol fod Pedr wedi bod yn Rhufain, ac iddo ddioddef merthyrdod yno; nid yw yn debygol iddo fod yn Esgob Rhufain, nac un lle neillduol. Swydd yr Apostolion oedd, i arolygu a chyfarwyddo yr eglwysi a'u hesgobion yn gyffredinol; ac ni adawsant neb ar eu hôl yn olynwyr iddynt yn y swydd hon. Yn ddiweddaf, aeth rhai cannoedd o flynyddau heibio cyn daeth geiriau Crist ynghylch rhoddi i Pedr "agoriadau teyrnas nefoedd," i'w cymeryd yn yr ystyr ag y mae'r Pabyddion yn ei roddi arnynt yn awr. "Tra yr oedd dynion yn cysgu" —dyna pryd "daeth gelyn-ddyn, ac a hauodd efrau yn mhlith y gwenith."

Wrth daflu golwg ar hanes Cristnogrwydd, a'i hymdaniad buddugol dan yr Ymherawdwyr hyd amser Cwstenyn Fawr, y mae amryw ystyriaethau pwysig yn ymgynnyg, a ellid eu nodi pe bai amgylchiadau yn caniatâu; y rhai a'n harwaenant i gyfrif yn bur naturiol, am y ffurf o lywodraeth eglwysig a gyfododd i fynu dan yr amgylchiadau. Nid oes le i amhen llai na fenthyciwyd llawer oddiwrth drefnau, defodau a sefydliadau yr Ymherodraeth Rufeinig. A gellid disgwyl yn naturiol, na fyddai penaeth eglwysig y ddinas ymherodrawl ddim yn hir iawn cyn cyrhaeddyd parch ac urddas, os nad awdurdod neillduol, yn amgen nag esgobion eraill. Yr oedd amryw achosion yn cyd-weithio er dwyn hyny oddiamgylch. Byddai masnach a negesau gwladwriaethol yn crynöi tyrfa o drigolion y gwahanol daleithiau, y Cristnogion fel eraill, i Rufain o bryd i'w gilydd; fel yr oedd gyda'r lle mwyaf cyfaddas a bob man i drafod materion yr eglwysi yn gyffredinol. Tebyg iawn fod yr eglwys Gristnogol yno gyda'r mwyaf cyfrifol a'r cyfoethocaf yn y byd. Ei gweinidogion hefyd a safent mewn cymeradwyaeth uchel ac haeddiannol, am eu zêl a'u ffyddlondeb dan yr aml erledigaethau chwerw a ddaethent i'w cyfarfod. O herwydd yr amgylchiadau a enwyd y mae yn ddiamau fod esgobion Rhufain mewn parch neillduol er yn fore, ac yr ymgynghorid â hwynt yn aml yn achosion eglwysi pellenig. Ond yn ofer y chwilir i hanesiaeth y tri chant cyntaf am brawf eu bod yn honi awdurdod ac uchafiaeth ar esgobion eraill a'r eglwysi yn gyffredinol: yn raddol iawn ac mewn oesoedd canlynol y daethpwyd i hyny.

Pan ddarfu i'r Ymherawdwr Cwstenyn gofleidio Cristnogaeth agorwyd y drws, mae'n wir, i lygriadau o lawer mâth; ac nid y lleiaf i dderchafiad a rhwysg traws-awdurdodol esgob Rhufain ac eglwyswyr eraill. Os ennillodd yr eglwys gyfoeth a mawredd daearol trwy ymgysylltu â'r llywodraeth, collodd lawer mwy mewn purdeb a symlrwydd. Am gyd-ymffurfio â'r byd hwn, hi a "dderbyniodd ei gwobr." Trôdd ei gweinidogion yu feistri arni, ac yn ormeswyr hunanol a di-egwyddor.

Pa fodd bynag, ni roddodd Cwstenyn i esgob Rhufain nac i neb arall awdurdod i alw cynghorfa gyffredinol *(general council)*. Cadwodd hyn o awdurdod iddo ei hun.

Yn y gynghorfa fawr a gannalwyd yn *Nicea* yn y flwyddyn 325 yr ymherawdwr ei hun oedd yn brif-gymmedrolwr a llywydd. Ar yr achlysur hwnw dywedodd Cwstenyn wrth yr esgobion presennol yno fel hyn: "Yr ydych chwi yn esgobion *(arolygwyr)* o bethau tu fewn i'r eglwys; ond myfi sydd esgob mewn pethau allanol."

DYBEN GWREIDDIOL YR EPISTOLAU.

Amlwg ydyw y cyfaaddasai Paul ei addysgiadau crefyddol, at nodweddiad neillduol, amgylchiadau, anhawsderau, profedigaethau, a golygiadau y bobl a anerchai. "Mi a ymwneuthum" meddai "i'r Iuddewon megis yn Iuddew, fel yr ynillwn yr Iuddewon; i'r rhai dan y ddeddf megis dan y ddeddf, fel yr ynillwn y rhai sydd dan y ddeddf," Oddiwrth yr adroddiad hwn yr ydym yn casglu yr egwyddor ganlynol o ddehongli,—sef na ddarfu i Paul, a gellir ychwanegu yr holl ysgrifenwyr cyssegredig, draddodi eu hyfforddiadau mewn ffurf dansoddol *(abstract)* a chyffredinol, wedi eu cymhwyso yr un fath a'r un môdd at bob amserau, ond fod iddynt gyfeiriad lleawl a neillduol at yr amserau yn mha rai yr ysgrifenwyd hwynt. Yn gyson a'r egwyddor yma y dywedai'r apostol wrth yr Atheniaid, "A Duw wedi esgeuluso amseroedd yr anwybodaeth hon, sydd yn awr, yn gorchymyn i bob dŷn yn mhob man i edifarhau;" ac i'r Corinthiaid y rhoddai gyngor cyfaddas i achlysur neillduol, gan ddywedyd, "Yr wyf yn tybied mai da yw hyn o herwydd yr anghenrhaid presenol"—h.y. yr addysg a roddwyf sydd wedi ei addasu i'ch anghenrhaid presenol.

Ond yma hwyrach y gofynir ar unwaith, ai ni ysgrifenwyd yr Ysgrythyrau i bawb? Bydded i ni gan hyny chwilio, a thybiaf y gwelir nad ellid ysgrifenu y Bibl i unrhyw ddyben defnyddiol i *bawb*, pe nad ysgrifenasid ef i *rai dynion* yn neillduol.

Y mae'r Ysgrythyrau nid yn unig yn dwyn nodau eu bod yn perthyn i'r amserau a'r personau a'u cynyrchodd, ond dygant nodau hefyd o gyfaddasiad parhaus at gyflyrau, golygiadau, a rhagfarnau, mewn gair at anghenrheidiau moesol y rhai yr anfonwyd hwynt atynt yn uniongyrchol.

Pan awdurdododd Duw brophwydi ac apostolion i fod yn ddysgawdwyr i'r byd, ni ddifuddiodd hwynt ar unwaith o'u rheswm, eu synwyr, a'u tremiadau.

Efe a'u dysgodd yn hytrach i ganfod yn eglurach, ac i deimlo yn fwy dwys, sefyllfa, anhawsderau, ofnau a gobeithion, gofidion a pheryglau, y rhai y cyfeirient eu cenadwri atynt. Efe a lanwodd eu calonau a dwys-ofal, a chydymdeimlad a'r bobl neillduol yr anfonwyd hwynt attynt. Pa fodd gan hyny y gallent lai nag anerch y bobl hyn, yn unol a'u cyflyrau neillduol! Yn wir y mae pob gwir deimlad, a thyner gyddeffiad, a phob gwresawgrwydd crefyddol, yn ei natur briodol, yn bennodol ac amgylchiadol. Nid yw yn ymwastraffu ar bethau cyffredinol ac anffrwythlawn.

Y mae ganddo ddybenion pennodol, uwchben pa rai y myfyria yn bryderus—y dwys-ystyria, y gobeithia, ac y gweddia. Y mae y nodweddiad neillduol hwn yn perthyn i'n Hysgrythyrau, ac yn eu gwahaniaethu cyn belled ag y sylwais i, oddiwrth bob cyfundraeth arall o athroniaeth a chrefydd.

Y mae addysgiadau y Bibl yn lleawl, amgylchiadol, a phennodol. Nid ychydig o orchymynion noethlwm a chyffredinol, nid cynifer o ddoeth-ddywediadau, o wahan-ranau byr-eiriog, ac arwydd-eiriau o ddyfalion meddyliol, y sydd genym ynddynt. Y dysgawdwyr Crist'nogol a aent i blith y tyrfaoedd, ac i drigfanau teuluoedd, treiddient i gilfachau y teimlad dynol, ymddyddanent a gwendid dynoliaeth, a'i galar ac a'i llawenydd: meddent rywbeth i bob meddwl.

Aent i mewn i amgylchiadau dynion, i eu hanghenrheidiau a'u profedigaethau dyddiol. Hyn sydd wedi cyfranu y fath ysbryd a rhin i'w hysgrifenadau.

Yr hyn a ddywedwn ydyw fod y dysgawdwyr cyssegredig wedi ysgrifenu at ddynion, at ddynion yr oes a'r genhedlaeth hono, o'r nodweddiad a'r arferion hyny yn mhlith y rhai yr oeddent yn byw. Ysgrifenasant i bob dyn, y mae'n

wir; ond ail-ddywedaf nas gallent wneuthur hyny heb ysgrifenu at ryw ddynion yn neillduol. I'r dyben o ddeall eu hysgrifeniadau, rhaid ystyried eu bod wedi cymeryd eu ffurf a'u llun, oddiwrth yr amgylchiadau hyny a barodd eu hysgrifenu. Y mae hyn yn briodol neillduol, i Epistolau y Testament Newydd. Galwyd y rhai hyn i fodolaeth, gan anghenrheidiau, anhawsderau, a phrofedigaethau yr eglwysi cyntefig. Pe derbyniasai dynion athrawiaeth syml Crist, heb wrth-ddadl na rhwystr; pe na bnasai i ymrafaelion a dadleuon gyfodi; pe na chymerasai camsyniadau a throseddau le, ni ysgrifenasid yr Epistolau hyn. Gallasai yr Apostolion roddi rhai cynghorion, a hyny mewn ffurf epistolaidd, ond ni buasai i'w hepistolau ddwyn yr un nodweddiad dadleuol, ac ni fuasent yn achlysuro mewn oesoedd dyfodol, yr unrhyw ddadleuon o barth dychweliad, etholedigaeth, yr iawn, a'r Drindod. Mewn gair ni buasai yr unrhyw anhawsderau, wrth ddehongli yr Epistolau hyn. Cymerasant eu ffurf oddiwrth amgylchiadau, y rhai nid oes genym, ac nid all fod, ond ychydig gydnabyddiaeth a hwynt. Gwelir nodau o gyfaddasiad yn mhob brawddeg. Y mae ynddynt lawer o bethau na ellir en cymhwyso, ond at y cyn-grist'nogion yn unig.

Y fath er engraifft, ydynt yr atebion i ofyniadau, egluriad i anhawsderau, terfyniad dadleuon,—y rhai a aethant heibio er ys talm. Y cyfryw ydyw yr hyn a berthyua i ddefnyddiad o'r gallu oedd gwyrthiol a phrophwydoliaethol, i fwydydd wedi eu haberthu i eilunod &c. Ymdrecha rhai dynion i gymhwyso pob ffurf, trefniad, darpariad, a rheol, a gynwysir yn yr ysgrythyrau. Y duedd yma ydyw sail yr holl seremoniau gwag, a'r ymbleidiaeth afresymol, a ymlusgodd i'r Eglwys. Yn wir nis gellid lai na sylwi fod yr arferiad o gymhwyso iaith yr Epistolau heb un cyfaddasiad, at byngciau o brofiad, a barn Crist'nogion mewn amserau diweddarach, wedi bod yn ffynonell ffrwythlawn o gyfeiliornadau yn mhob ffurf; a'i bod yn fwy na dim arall, wedi meithrin hyfdra ymbleidwyr, boddhau balchder y gwan, a mympwy yr afresymol; a thrwy y moddion hyn fod dynion anturiol ac anwybodus, yn neillduol yr anwastad a'r annysgedig yn gwyr-droi yr Ysgrythyrau i'w niwed eu hunain.

Dynion o'r fath hyn ydynt bod amser yn troi ymaith oddiwrth ddysgeidiaeth eglur yr Iesu, at ddirgeloedd dyfnion Paul, ni chyfrifir y blaenaf yn fynych ond megis moesoldeb difywyd, tra mae'r olaf er yn amgylchiadol a lleawl, ac wedi eu cymysgu a chysgodau oes henafol, a'r pryd hyny yn "ddyrus ac yn anhawdd eu deall,"—wedi cael eu hefrydu yn neillduol, megis yn cynwys y ffurf berffaith o athrawiaeth, a hanfod yr oll o grefydd ysbrydol.

Y mae y gwahaniaeth nodedig y sydd rhwng addysgiadau Crist, ac eiddo'r Apostolion yn amlwg i bob meddwl ystyriol: ond tardda yn benaf oddiwrth amgylchiadau. Gwahaniaeth ydoedd, nid yn y sylwedd ond yn y ffurf a'r dull o addysg crefyddol. Y mae yn amlwg fod dysgeidiaeth ein Hiachawdwr yn fwy eglur ac ymarferol. Cynwysai fwy o egluriadau hawdd a ddealladwy, ar wirionedd a dyledswydd—o ddiwioldeb a derbyniad gyda Duw. Cyhoeddai ein Hiachawdwr gyfundraeth, yr hon na chawsai hyd yn hyn nemawr o wrthwynebiad.

Nid oedd modd ei gwrthwynebu cyn ei chyhoeddi. Ond bu raid i'r Apostolion ymddadleu a byd o wrthwynebwyr o bob math. Parodd hyn i'w hysgrifeniadau fod yn fwy golygiadol *(speculative)*, yn fwy cymysgedig, wedi eu gwau ynghyd â sefydliadau a drychfeddyliau, a rhagfarnau'r oes; ac i'r graddau hyny yn fwy dadleuyddol a thywyll. Oddiar esgeuluso sylwi ar gymhwysiad lleawl yr ysgrifeniadau henafol hyn, y tarddodd yr arferiad ddieithr a niweidiol a wneir o honynt; ac y ffyna golygiadau drwg a niweidiol ar grefydd gyda llaweroedd; ac y gorphwys gradd o dywyllwch ar feddyliau pawb a'u darllenant. Y mae eithafion

yn gyffredin yn ymgyfarfod, felly yma mae pergyl i dybied oddiwrth gymhwysiad lleawl yr ysgrifeniadau hyn, fod eu cyfeiriad yn unig at yr amserau hyny, ac o ganlyniad eu hesgeuluso, ac anghofio, y duedd ymarferol sydd ynddynt, yr hon a berthyna i bob oes. Gwelir fod o bwys i ystyried pa bethau yn yr Epistolau, oeddent briodol i'r amserau yr ysgrifenwyd hwynt, a'r hyn a berthyna i ni yn bresenol; fel y'n diogeler rhag golygiadau dyrys a chfeiliornus ar y naill law, ac oddiwrth anystyriaeth a diofalwch ar y llaw arall. Y cymhwysiad ymarferoi o'r egwyddor yma a adewir i farn y darllenydd goleuedig a diduedd; ein hamcan yn y sylwadau uchod, ydoedd rhwyddhau'r ffordd i iawnddefnyddiad, a dealltwriaeth gywir o'r ysgrifeniadau gwerthfawr a ddyddorol hyn. W.

Orville Dewey.

ERTHYGLAU YR EFENGYL AC ERTHYGLAU IAWN-FFYDDIAETH YN CAEL EU CYDMARU A'U GILYDD, WYNED YN WYNEB.

Syr,

Wele y dernyn canlynol at eich gwasanaeth, os gwelwch ef yn gymmwys i gael lle yn eich cyhoeddiad. Nis gwn pwy yw yr awdwr, ond yr wyf yn credu fod y gydmariaeth a wna yma, yn un dêg a chyfiawn; onite, ni fuaswn yn ei chynnyg i'ch darllenwyr. Os tybia rhyw un ei fod yn *rhy ffafriol* i un ochr am ei fod yn gosod allan syniadau Undodaidd yng ngeiriau'r Ysgrythyr, ond yn rhoddi y syniadau gwrthwynebol mewn geiriau anysgrythyrol; dymunwn ar y cyfryw un i ystyried a chofio, mai nid bai yr awdwr yw hynny; ond bai yr erthyglau a'r syniadau hynny, y rhai nid ellir eu gosod allan heb ddefnyddio geiriau ag nad ydynt i'w cael yn yr Ysgrythyr.

ERTHYGLAU Y FFYDD GRISTNOGOL YN OL YR EFENGYL.

Yr Arglwydd ein Duw sydd *un*, ac ini nid oes ond un Duw.

Ysbryd yw Duw.

Rhaid i'r rhai a addolant Dduw, ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd.

Duw Iesu Grist yw ein Duw ni.

Os cyffesi a'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i *Dduw* ei *gyfodi ef* o *feirw*, cadwedig y fyddi.

Iesu yw y Crist, y Messiah, Mab Duw.

Iesu Grist, wedi ei wneuthur o wraig a'i eni dan y ddeddf, pan oedd Augustus Cesar yn ymhera wdwr.

Mab *Dafydd* oedd Iesu Grist; had *Abraham*; prophwyd cyffelyb i Moses; *Dyn* a eneiniodd Duw â'r Ysbryd Glân, ac â nerth, yr hwn a gyfododd Duw o feirw; cyfryngwr rhwng Duw a dynion, dan y cyfammod *newydd*, megis yr oedd Moses rhwng Duw a'r genedl *Iuddewig* dan yr *hen* gyfammod.

ERTHYGLAU YR IAWN FFYDD YN OL IAWNDYBIAETH.

Yr Arglwydd ein Duw sydd un Arglwydd ac un Duw, ond yn yr un Arglwydd a'r Duw hwnnw y mae tri pherson, a phob un o honynt yn Arglwydd ac yn Dduw.

Bod yw Duw sydd yn cynnwys tri gweithredydd gwahanol, Tad, Mab, ac Ysbryd.

Y Ffydd Gatholig yw hon, bod i ni addoli un Duw yn Trindod, a Thrindod yn Undod.

Duw o Dduw yw Iesu Grist.

Y mae yn angenrhaid, er mwyn tragwyddol iachawdwriaeth; gredu o ddyn yn ffyddlon am gnawdoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

Iesu Grist yw y gwir a'r tragywyddol Dduw.

Iesu Grist, nid wedi ei wneuthur ond ei genhedlu gan ei Dad er tragywyddoldeb, ac o'r diwedd a aned o wraig yn y byd.

Iesu Grist yw yr *Un* gwir a thragywyddol Dduw, yr hwn er mwyn ein hiachawdwriaeth ni a ddaeth i waered o'r nefoedd, ac a ymgnawdolodd trwy'r Ysbryd Glân *(yr hwn hefyd yw'r un gwir Dduw)* o Fair forwyn, fel y darfu i ddwy natur gyflawn a pherffaith, y duwdod a'r dyndod, gael eu huno yn anwahanadwy mewn un Crist; yr hwn undeb a wnaed nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn

Ni allai y Mab wneuthur dim o hono ei hun. Nid ei eiddo ei hun oedd hyd yn oed y geiriau yr oedd yn lefaru, ond eiddo y Tad yr hwn a'i hanfonodd, ac yr oedd ei Dad yn fwy nag ef.

Y mae Mab Duw a'i Dad yn ddau fod gwahanol, yn dwyn tystiolaeth gyfreithlon i wirionedd yr efengyl.

O herwydd fod Iesu Grist bob amser yn ostyngedig ac ufudd, hyd yn oed hyd angeu 'r groes, am hynny *Duw* a'i tra-derchafodd yntau, ac a *roddodd* iddo enw goruwch pob enw, a phob awdurdod dros bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear, a phethau tan y ddaear.

Swm ein crefydd yw, ffydd, gobaith, a chariad; a'r mwyaf o'r rhai hyn, ac o ganlyniad yr hyn sydd angenrheidiol o flaen pob peth i'r gwir Gristion, yw cariad; ac y mae cariad yn gobeithio pob dim. Ond a pha farn y barna dynion y bernir hwythau.

ddyndod, nac ychwaith trwy ymchwelyd y Dyndod yn Dduwdod, ond trwy gymmeryd y dyndod at Dduw.

Y mae y Mab ymhob ystyr yr unrhyw a'r Tad, mewn gogoniant yn gydrâdd, ac mewn mawrhydi yn ogyd-dragwyddol.

Y Tad a'r Mab ynghyd â'r Ysbryd Glan ydynt ond un, ac yn gwbl yr unrhyw fod a *sylwedd.*

Yr oedd Iesu Grist er tragwyddoldeb yn *hollalluog*, ac yr oedd ganddo bob amser gymmaint o allu dros bethau yn y nefoedd, ar y ddaear, a phethau tan y ddaear, a'r Tad ei hun.

Pwy bynnag a fynno fod yn gadwedig: o flaen dim rhaid iddo gynnal y Ffydd Gatholig. Yr hon Ffydd, oni's ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog: *diammeu* y collir ef yn dragywydd.

CYF.

PREGETHWYR CYMRU.

"It is perfectly possible that our existing preachers should in every respect be equal to their predecessors, and yet their labours be far less productive. The masses on whom they work may have advanced into a different position, so as to require a higher order of agency; while, perhaps, the very efforts of those who went before us, notwithstanding their general success, complicated the character of exceptional cases, and thereby greatly aggravated the difficulty of meeting them. Indeed, such I believe to be the fact. So long as the public were ILLITERATE, the most common-place truths had all the attraction of novelty; and crowds hung with rapture on the lips of men, who made no pretensions to either learning or eloquence. Now, however, when authors are nearly as numerous as readers were then, the pulpit has quite another task to fulfil. It may be that some of its occupants are ill-prepared for the special demands of the age; but I feel assured they will not long be found wanting."---Page 43.

Letter of the Rev. H. GRIFFITHS, Brecon College, to the Rev. L. Edwards, M.A.

SYR,

Y mae pregethwyr Cymru wedi bod er ys hir amser bellach yn ddiwyd iawn yn y gwaith o nodi allan anghymwysderau yr ysgolfeistr, ac er nad oes ond ychydig o honynt yn gwybod nemawr yn brofiadol am y gwaith o weinyddu addysc i blant, y maent oll yn ymddangos fel pe baent yn ystyried ei hunain yn eithaf addas i farnu beth ddylai ysgolfeistr fod, pa fodd y dylai wneuthur ei waith, a hyn ar llall. Rhaid addef fod ysgolfeistriaid y wlad, lawer o honynt yn lled anaddas at y gorchwyl a gymerant mewn llaw, ond y mae lle i gredu y cymer diwygiad le cyn byddo hir ar ol yr holl fwstwr sydd wedi cael ei gadw yn eu cylch.

Ac yn awr, Syr, tra fyddo yr ysgolfeistr yn myned trwy y gorchwyl o hunanwelliant, barnaf mai buddiol fyddai i'r wlad i gymeryd y pregethwyr mewn llaw. Gyda golwg ar les moesol y werin, hwy yn ddiau yw y *Class* sydd yn sefyll nesaf at yr ysgolfeistriaid o ran defnyddioldeb. Gwaith yr ysgolfeistr yw gweinyddu addysc i blant, a gwaith y pregethwr yw dysgu egwyddorion crefydd a rhinwedd i ddynion mewn cyflawn oed. Swydd bwysig iawn yn wir yw pob un o'r ddwy; ond yn gymaint a bod meddyliau plant yn fwy tyner, ac am hyny yn hawddach gwneyd argraff arnynt, a'u serch a'u teimlad yn fwy brwd a bywiog, y mae dylanwad yr ysgolfeistr ar y werin yn fwy na dylanwad y pregethwr. Hefyd, yn yr oes bresenol pryd y mae awydd am ddarllen yn cynnyddu, a mwy o ddynion, o bosibl, yn ysgrifenu, nag oedd ys triugain mlynedd yn ol yn darllen, y mae yr argraffwasg yn cyflawnu cyfran helaeth o swydd y pregethwr; ond er hyny, y mae swydd y pregethwr yn un bwysig, ac yn un sydd yn gofyn parotöad a chymhwysder mawr.

Nid oes gennyf fi, Syr, un chwennychiad i roddi dedfryd ar gymwysderau y dô bresenol o bregethwyr Cymru, neu ar y dull neu y modd y cyflawnant eu swydd; nid dedfrydu yw fy mwriad, ond nodi allan yn ostyngedig ac yn barchus yr hyn wyf yn ystyried sydd yn ddiffygiol ynddynt gan obeithio y diwygiant. Yn wir y mae yn rhaid iddynt ddiwygio neu

ynte i golli llawer o'u dylanwad ar y bobl. Y mae yr oes hon yn fwy darllengar, yn fwy ymofyngar, yn fwy gwybodus na'r oesoedd a aethant heibio. Bu amser pryd ag yr ystyrid hi yn bechod i ammeu dim a ddywedai yr offeiriad, neu i feio braidd ar ddim a wnelai, ond nid felly y mae yn awr: yn awr, y mae geiriau, a gweithredoedd, ac arferion offeiriaid a phregethwyr, fel dynion eraill, yn cael eu pwyso yn nghlorian syniad y cyhoedd. Ys deugain a thriugain mlynedd yn ol, nid oedd yn ofynol i bregethwr, er mwyn bod yn boblogaidd, chwilio i mewn i ddirgelion gwybodaeth, cwrteithio ei ddeall, a chael rhyw beth yn debyg i synwyr a chyssondeb yn ei bregeth. Yn wir gellid dwyn amrywiol o engraifftiau i ddangos mai y pregethwyr mwyaf digwr taith oedd y rhai a dynai y lliaws amlaf ar eu hôl: ond yn awr y mae dynion yn dechreu dôd yn gallach, credant fod eisiau rhyw gymwysderau rhagorach mewn pregethwr na medrusrwydd llaisberoriol; y mae oes y neidio crefyddol wedi darfod, ac y mae'r deall yn cael ei osod ar waith yn fwy mynych na'r coesau.

Bwriadaf, Syr, trwy eich caniatâd sylwi ar y pregethwyr yn fwyaf neillduol yn eu pwlpidau. Dyma lle dylai dylanwad y pregethwr fod yn fwyaf effeithiol. Am y dull cyffredin o draddodi pregethau, ac am eu cyfansoddiad nid wyf yn chwennych dyweyd dim, er y gellid gwneyd rhai sylwadau tra phwrpasol. Nid oes dim ond tri phregethwr yn Nghymru ar a wn i am danynt, a fedrant gyfansoddi pregeth yn unol ar peth wyf fi yn ystyried ddylai pregeth fod. Ond ni adawn hyn yn awr hyd nes delo amser mwy cyfaddas, ac a frysiwn ym mlaen i ddyweyd ychydig am *sylwedd* y rhan amlaf o bregethau Cymreig yr oes bresenol. Yr wyf fi, Syr, o'r farn nad yw eu sylwedd yn gyffredin y fath ag sydd yn tueddu i oleuo, i ehangu y deall, ac i wella y teimladau. Nid wyf yn tynu y casgliad hwn yn fyrbwyll. Yr wyf wedi gwrando pregethwyr pob sect; yr wyf wedi dal sylw manwl arnynt; ac hyd byth ag y medrwn, wedi chwalu sylwedd llawer o'u pregethau, ac yr wyf yn beiddio dyweyd fod y mwyrif o'r pregethwyr naill ai yn anwybodus, neu yn ddiog, neu ynte yn fusgrell, neu tan ddylanwad rhagfarn: mi wn fod rhai eithriadau yn eu plith, ond ychydig ydynt mewn cydmariaeth i'r corph o bregethwyr. Nid wyf yn ammeu nad yw y pregethwyr Trindodaidd yn dangos medrusrwydd mawr yn eu gwaith yn trafod dirgelion y Cyngor Boreu, y Cwymp yn Eden, a'r codiad yng Nghalfaria, yr Etholedigaeth, yr Haeddiant, a phynciau dyrys eraill. Pa faint bynag o wir sydd ynddynt, ni all y pregethwyr eu hunain ddyweyd fod tuedd ynddynt i egluro natur egwyddorion teyrnas y Cyfryngwr, nac i foesoli dynolryw. Y mae y mwyaf deallus o'u gwrandawyr yn dechreu canfod eu hannigonolrwydd i'w gofynion moesol ac ysbrydol. Mewn llawer o gynnulleidfaoedd, pryd byddo 'r pregethwr yn trafod pynciau o'r fath, ceir gweled mwy na haner y gwrandawyr yn myned yn swrth, yn pendrymu, ac yn ymddangos fel pe byddent yn ystyried eu bod yn gwrando ar chwedl yn hytrach nag ar air y bywyd. Achwyna y pregethwyr fod y bobl wedi myned yn farwedd, fod yr Ysbryd wedi troi ei gefn ar Sion, a gwneir ymdrechion mawr mewn rhai manau i gael diwygiad, ond a fyddai ddim yn ddoeth ach ynddynt i ystyried p'un ai ar y bobl mae'r bai neu ynte arnynt hwy. Diwygient hwy yn gyntaf ac yna fe ddiwygia 'r bobl. Y mae'r bobl yn awyddus am grefydd: ond teimlant ryw ddiffyg, rhyw angen ysbrydol nad yw'r pregethwyr yn ddiwallu. Sonir llawer, mae yn wir, am Ghrist ac am yr Efengyl, ond symudir Christ a'r Efengyl yn rhy bell oddiwrth gyflyrau y bobl. Gosodir y byd i ddyfod yn rhy bell oddiwrth y byd hwn; gwneir y gagendor yn rhy lydan. Pe soniai y pregethwyr lai am Adda a mwy am Ghrist, llai am ddirgelwch athrawiaethau a mwy am oleuni yr Efengyl: pe cymhwysent ysbryd y grefydd Gristnogol at gyflwr y tylawd a'r cyfoethog mewn cyssylltiad ag amgylchiadau y byd presenol, caent weled ysbryd newydd yn cynhyrfu y lliaws. Cymered diwygiad le yn y pwlpidau yn gyffredinol, a mentraf ddyweyd y tueddir ugeiniau i fyned i'r cyfarfodydd ag sydd yn awr yn treilio eu Sabothau, os nid yn y dafarn, cartref yn darllen y papyrau newyddion.

Cyfeirio wyf, Syr, yn fwyaf neillduol at y pregethwyr Trindodaidd, oblegid hwy sydd fwyaf aml a phoblogaidd. Dymunwn, er hyny, ddyweyd gair neu ddau yr un mor barchus wrth y pregethwyr Undodaidd. Gwn fod rhagfarn y werin yn gryf yn eu herbyn; y maent megis yn nofio yn erbyn rhediad y dwfr; ac efallai nad yw y pregethwyr Trindodaidd yn hollol rydd o'r cyhuddiad o enyn rhagfarn yn eu herbyn yn ddiachos. Ond er gwaethaf pob gwrthwynebiad, sicr wyf y caent lawer mwy o wrandawiad pe ymadawent a'r dull ammhoblogaidd sydd gan rai o honynt o ddarllen eu pregethau, a phe deient lai mewn *metaphysics* a mwy mewn Christnogaeth. Na chamddealler fi; pell wyf o feddwl na ddylai pregethwyr fod yn *metaphysicians;* y *metaphysician* goreu ddywed leiaf o ffolineb; ond dyweyd wyf mai gwell na myned trwy ymresymiad goranianawl *(metaphysical ratiocination)* yn y pwlpid fyddai sylfaenu sylwedd y bregeth a'r wirioneddau goranianaeth *(metaphysical truths)* y rhai ydynt yn wastad yn gysson a gwirioneddau Christnogaeth. I ddyweyd beth o'r gloch yw hi wrth yr oriawr, nid oes eisiau esbonio cyfansoddiad y *machine* sydd yn troi y pinau. Nid wyf yn ammeu na fyddai pregeth ar Angenrheidrwydd neu ar Natur a Diben cosp yn ddyddorawl i'r dysgedig, ond y maent yn gofyn galluoedd mwy efallai na

fedd un pregethwr yng Nghymru i wneyd chwaliad pynciau mor oranianawl yn ddealladwy ac yn ddyddorawl i'r bobl gyffredin. Hefyd, am ddadleuaeth pwlpidawl, y mae llawer o wahaniaeth rhwng amddiffyn y gwir yn achlysurol a gwneuthur y pwlpid yn fagnelfa barhaus yn erbyn cyfeiliornadau. Y mae un bregeth a fyddo yn egluro egwyddorion yr Efengyl, ac yn dangos eu cyssylltiad a'u perthynas ag amgylchiadau ysbrydol a thymhorol dynolryw, yn fwy effeithiol i'w darbwyllo i dderbyn y gwirionedd ac i ymddihatru oddiwrth ragfarn na dwsin o rai dadleugar. Pe byddai ymdrech a deheuder pregethwrawl y gweinidogion Undodaidd, a'u hundeb a'u gilydd, yn cyfateb i'w gwroldeb yn amddiffyn eu syniadau, a'u parodrwydd i ddioddef colledion tymhorol er eu mwyn, ffoai rhagfarn o'u blaen fel niwl o flaen pelydrau'r Haul. Nid oes dim ammheuaeth gennyf na raid i lawer o syniadau crefyddol yr Undodiaid i ennill tir a dymchwelyd llawer o syniadau sydd yn awr yn dra phoblogaidd; ond cyn y cymer hyny le, bydd yn rhaid i Dduw yn ystod ei ragluniaeth barotoi offerynau mwy effeithiol na phregethwyr Undodaidd yr oes bresenol. Os gallant gadw yn fyw yr athrawiaeth o briodol Undod Duw hyd nes y dêl yr amser hwnw oddiamgylch, gwnant gymaint efallai ag a ganiata amgylchiadau iddynt yn awr wneuthur.

Onid ydych chwi, Syr, o'r farn y dylai pregethwyr fod, os nid o flaen ysbryd yr oes y byddont byw ynddi, o leiaf nid yn mhell ar ei hol? Oni ddylent yn hytrach arwain na chael eu harwain? Nid gwiw i neb gelu y ffaith; y mae pregethwyr Cymru yn awr fel corph yn mhell ar ol yr oes. Os na wnant gychwyn yn mlaen, y canlyniad fydd i'r bobl eu gadael hwynt ar ol ac ymofyn am arweinyddion gwell. Prif nodweddiad yr oes bresenol, Syr, yw diystyrwch o hen syniadau a thraddodiadau ac arferion; rhyw fath o anfoddlonrwydd cyffredinol i gyflwr presenol y byd, ac awydd anorchfygol am gyfnewidiadau. Y mae'r Ysbryd hwn mor eofn yn ei weithrediad fel 'y beiddia chwilio i mewn i bob peth gyda thaerineb perthynol iddo ei hun. Ymwela a chyssegr yr eglwys gyda'r un haerllugrwydd a llygadrythiad ag yr ymwêl a gweithfa *(laboratory)* y philosophydd neu senedd-dy y wladwriaeth. Er i fod llawer o ddatgudd-iadau buddiol yn cael eu gwneyd, a llawer o welliant yn cymeryd lle, er hyny cyflwr peryglus i genedl fod ynddo yw y cyflwr hwn. Dyma beth yw ysbryd yr oes, a dywedaf y dylai pregethwyr fod i fyny iddo. Ond nid wyf yn meddwl wrth hyny y dylent *gyfranogi* o hono, ond meddyliaf y dylent fod yn abl i gynghori, i agoryd llygaid deall eu gwrandawyr i ganfod pethau yn eu lliw a'u llun priodol, i *ragweled* y budd a'r lles o'r peth hyn, a'r niwed o'r peth arall: yn fyr, dylent ymddwyn fel *ballast* mewn llong i gadw meddyliau dynion yn ddianwadal yn y demestl. Hwy yw halen y ddaear, medd Christ. Pell iawn yn wir, yw pregethwyr Cymru yn yr oes bresenol o gyrhaeddyd y nôd hwn. Y mae achos i ofni fod pedwar rhan o bump o honynt yn addasach i'r oesoedd sydd wedi myned heibio nag i'r oes bresenol.

Y mae llawer o ddynion, Syr, o'r farn na ddylai pregethwyr drafod *politics* neu achosion gwladwriaethol. Ymddengys i mi mai camsyniad yw hyn. Nid wyf yn meddwl y dylent ymyraeth a *pharty politics*, megis Whigiaeth neu Toriaeth, neu Chartiaeth, neu Radicaliaeth; goreu gyd p'un leiaf ymyront a'r pethau hyn; ond wrth *bolitics* y deallaf breiniau dyn fel aelod o'r wladwriaeth. Nis gellir ammeu nad yw cyfreithiau gwlad, p'un ai drwg ai da y byddont, yn cael effaith ar fywydau, tymherau, moesau, a dedwyddwch y trigolion, ac o ganlyniad y mae cyssylltiad anwahanadwy rhyngddynt ag achos a ffyniant crefydd a rhinwedd. Yr oedd y proffwydi Iuddewaidd yn trafod materion gwladwriaethol, a phaham na ddylai prophwydi Christnogaeth wneyd yr un peth. Yr ydys yn sicr fod ganddynt fwy o gyfleusdra na neb i ddysgu'r bobl; ac y mae yn rhesymol meddwl fod eu dylanwad y fath fel y mae y bobl yn barottach i wrandaw arnynt nag ar neb eraill. Am hyny os yw natur cyfreithiau y wlad hon yn ymddibynu i raddau helaeth ar wybodaeth yn gystal ag ar rinwedd y trigolion, onid yw yn ddyledswydd arbenig ar y pregethwyr i oleuo eu cynnulleidfaoedd yn nghylch eu hawliau gwladol yn gystal a'u lles ysbrydol? Ond pwy rai o honynt sydd yn gwneuthur hyn? Dysgu egwyddorion crefydd, mae yn wir, yw dyledswydd pregethwyr, ond onid yw y lles ysbrydol yn ymddibynu ar y lles naturiol? Pwy all dori y cyssylltiad sydd rhwng y naill a'r llall o honynt? Os yw y naill yn ymddibynu ar y llall, ffolineb yw meddwl fod llywod-ddyse oddiallan i gylch y pregethwr. Mi ddymunwn weled holl bregethwyr Cymru, nid yn unig yn alluog i ddysgu dynion i adnabod eu hawliau gwladwriaethol, ond hefyd yn ei ystyried yn ddyledswydd arbenig arnynt i wneuthur hyny. Y mae yn gyflawn bryd i bwyllgorion Colegau i ddechreu meddwl am wneyd llywod-ddysc yn rhan o addysgiaeth myfyrwyr a fyddo yn ymbarotöi at y weinidogaeth Ghristnogol.

Ond, Syr, i adael heibio y tro hwn lawer o bethau oeddwn yn meddwl sylwi arnynt, yn olaf cyfeiriaf feddwl y darllenydd at y ffaith fod rhan fawr o'r pregethwyr yng Nghymru yn tueddu i wenieithaw i archwaeth isel *(low taste)* eu gwrandawyr yn hytrach na'i geryddu a'i wella: er engraifft, os deallant fod cynnulleidfa yn cymeradwyo pregethwr a fyddo yn medru gwaeddi, *tuno* ei lais, neu wneyd y *rhwnc fawr* yn y gwddf wrth weddio, ymdrechant hwythau wneyd yn yr un modd, yn hytrach nag anerch y bobl yn syml ac

yn brydferth fel y gweddai i weinidog Efengyl Christ. Pe byddent yn weinidogion Apollo o Cuma ni byddai achos iddynt ymddwyn yn fwy amnhrydferth. Y mae ymddygiad mor isel yn ffiaidd yn ngolwg pob dyn deallus, ac yn rhwystr ar ei ffordd i fyned i'r ty-cwrdd i wrandaw mor fynych ag y dymunai.

Y mae llawer o bregethwyr hefyd nid yn unig yn gwenieithaw i archwaeth isel eu gwrandawyr, ond hefyd i'w rhagfarnau. Nid yn anfynych y clywir llawer o honynt yn drwgliwio syniadau sectau eraill heb roddi un rheswm dros y cyhuddiad a ddygant yn eu herbyn. Nid oes neb wedi dioddef mwy yn yr ystyr hyn na'r Undodiaid a'r *Roman Catholics*. Gellid meddwl fod rhai pregethwyr yn credu mai un o briodoleddau "pregethwr mawr" yw dawn i ddifrio "Sosiniaid." Y mae eraill debygwn yn rhoddi ambell i sen iddynt, o ddiffyg defnydd gwell i lanw eu pregethau. Nid allaf ddim llai nag ystyried ymddygiadau o'r fath hyn fel cynnyg at wenieithaw i archwaethau isel, a rhagfarnau cynnulleidfaoedd.

Mae pob dyn a ddwys ystyria sefyllfa bresenol crefydd yn Nghymru yn rhwym o addef fod cymaint o eisiau diwygio y pregethwyr, beth bynnag, â'r ysgolfeistriaid. Ond pan yn dyweyd y dylent ddiwygio, yr wyf yn meddwl yn fwyaf neillduol y pregethwyr ieuainc, oblegid byddai yn beth afresymol a chreulon dysgwyl ar hen bregethwyr i ddechreu cymhwyso eu hunain at amgylchiadau yr oes. Y mae eu dydd goreu hwynt wedi myned heibio: yn hytrach nag aflonyddu eu meddyliau, dylem deimlo yn ddiolchgar iddynt am eu gwasanaeth yn yr oes sydd wedi myned heibio, a gadael iddynt gymeryd eu ffordd weithian hyd derfyn eu taith. Ond am y dô ieuanc sydd yn awr yn dechreu blaguro, y mae yn rhesymol dysgwyl arnynt hwy i ateb gofynion yr oes. Y mae sefyllfa ysbrydol yr eglwysydd y fath ag sydd yn gofyn gweinidogion dysgedig, gweithgar, diflin, a duwiol. Y mae sefyllfa foesol y byd yn mhob oes wedi darparu dynion addas i'w ofynion; bydded i ni obeithio na fydd sefyllfa bresenol yr eglwys yn eithriad i'r rheol.

Cyn diweddu y mae gennyf air i ddyweyd wrthych chwi, Athrawon Colegau. Y mae amgylchiadau a'ch cymwysderau wedi cydweithio i'ch gosod i lanw un o'r swyddi mwyaf pwysfawr a fedd ein byd. Arnoch chwi mae yn gorwedd i raddau helaeth i gymwyso ac i addasu gweithwyr glew i winllan eich Meistr. Arnoch chwi mae'n dysgyn y gorchwyl o ddysgu dynion ag y mae yn rhesymol dysgwyl fydd a rhan helaeth yn ffurfiad nodweddiad oes, ie, yr oesoedd i ddyfod!! Effeithia y modd y cyflawnwch chwi yn awr eich swydd ar gyflyrau miloedd o'ch cydgreaduriaid. O mor rhuadwy fydd y pechod "a orwedd wrth eich drws," os esgeuluswch yr ymddiried a osodwyd ynoch!! I'r un graddau, o'r tu arall, y bydd eich gwynfydedigrwydd os cyflawnwch eich gwaith mor ddidwyll ag y cewch gymeradwyaeth eich cydwybodau yn y dydd olaf. Digon o wobrwy fydd annerchiad eich Meistr "Da weision da a ffyddlon, deuwch i mewn i lawenydd eich Harglwydd."

D. L. Evans.

PARHAD O FYWYD LOUIS-PHILIPPE.

Trwy anogaeth *Madame de Genlis* cadwai ei hysgolheigion ddyddlyfr er cofnodi gwahanol ddygwyddiadau a gymerent le o ddiwrnodd i ddiwrnod. Pob peth hefyd a berthynai iddynt hwy eu hunain yn bersonol a gofrestrid ganddynt yn eu dyddiadur, fel y gallent, wrth adolygu eu bywyd a chanfod eu diffygiadau ddiwygio eu hunain yn ol llaw. Dyddiadur Dug Chartres, yn ddiweddar a a ddaeth i ddwylaw'r cyhoedd, ac ynddo y ceir hanes lled gyflawn o amser boreu ei fywyd ynghyd â'r syniadau *politicaidd* a goleddai y pryd hwnw. Ei *bolitics* oeddent y fath a ellid ddysgwyl oddiwrth lengcyn yn cael ei ddwyn i fynu dan ddylanwadau athrawiaethau chwyldroadol yr amser. Yr oedd Madame de Genlis a'i gwr yn bleidwyr gwresog y chwyldröad yn 1789, a thrwy gydsyniad *Dug Orleans* ni fethasant argraffu eu syniadau ar feddwl tyner *Dug Chartres*. Yr oedd *Dug Chartres* yn aelod selog o'r gymdeithas Jacobinaidd, ac ymddengys oddiwrth ei ddyddiadur ei fod fynychaf yn bresenol ar gyfarfod y corph terfysglyd hwn, yn gystal âg ar eisteddiad y *National Assembly*. Er bod *Louis Philippe* ar y dechreu yn wrthwynebol i unbenaeth, etto, pwy ond efe oedd y blaenaf i ddringo gorsedd pan y gwelodd gyfleustra? Mor gyfnewidiol yw dyn! Yr hyn sydd yn fwy anrhydeddus i'w gymeriad, ymddengys hefyd oddiwrth ei ddyddlyfr iddo fod yn ymdrechgar i gyrhaeddyd gwybodaeth o

law-feddygaeth (Surgery) trwy fynych ymweliad â Hotel de Dieu, un o brif ysbyttai Paris. Ychydig lyfriadau a ddyfynir allan o'i ddyddiadur yn y llinellau canlynol.—

"Tachwedd 2.—Derbyniwyd fi yn aelod o'r gymdeithas Jacobinaidd, a dangoswyd i mi gymeradwyaeth. Dychwelais iddynt fy niolchgarwch gwresocaf am eu derbyniad caruaidd o honof, a sicrheais wrthynt y gwnawn fy ngoreu i gyflawni fy nyledswyddau fel gwladgarwr a dinaswr ffyddlon.

Tachwedd 26.—Bum heddyw yn Hotel de Dieu. Y tro nesaf caf drin y cleifion fy hunan.

Rhagfyr 2.—Boreu ddoe buais yn Hotel de Dieu. Triniais ddau gleifion a rhoddais iddynt eu dau ychydig arian.

Rhagfyr 25.—Bum ddoe yn adrodd fy nghyffes (arferiad Babyddol). Ciniawais yn y *Palais Royal*, ac ar ol ciniaw ymwelais â'r Gymdeithas Ddyngarol lle yr arosais hyd wyth o'r gloch.**** Aethum i'r Offeren nosol, dychwelais adref am ddau o'r gloch y boreu, ac aethum i'r gwely am haner awr wedi dau.

Ionawr 7. (1791).—Buais boreu heddyw yn Hotel de Dieu, ac yr oedd yn gwlawio'n drwm. Triniais y cleifion, a gwaedais dair o fenywod.

Ionawr 8.—Yn y *National Assembly* y boreu, ac yn y gymdeithas *Jacobinaidd* y prydnawn. *M. de Noailles* a gyflwynodd i sylw y presenolion lyfr ar y chwyldroad, ysgrifenedig gan *Mr. Joseph Towers* mewn atebiad i Mr, Burke. Canmolwyd y gwaith yn fawr, ac appwyntiwyd finau i'w gyfieithu. Cydsyniais a'u cais, ond nid heb amlygu iddynt fy ofn nas gallwn foddloni eu dysgwyliadau. Dychwelais adref am chwarter awr wedi saith. Nid oedd fy nhad yn cymeradwyo fy addewid, a dywedodd wrthyf fod yn rhaid imi esgusodi fy hun i'r Jacobiniaid dydd Sul.

Ionawr 28.—[Yma y mae'n hysbysu pa fodd yr oedd wedi cael twymyn anwyd]. Aethum i *Bellechasse* (cartref *Madame de Genlis*) lle yr oeddwn yn chwenych aros er saled oeddwn oherwydd dolur pen, ond *Madame de Genlis* a'm gorfododd i fyned ymaith, gan fy adgofio fod yn rhaid imi fod yn *Hotel de Dieu* yn y boreu.

Oddiwrth ei ddyddiadur ymddengys fod *Dug Chartres* yn hoff neillduol o *Madame de Genlis*, a'i fod yn ystyried ei chynghorion bob amser fel eiddo mam. Cyfeiria atti yn ei ddyddiadur Mai 22, yn y modd canlynol 'O fy Mam! yr wyf yn mawr ddiolch i chwi am fy ngwaredu oddiwrth ddrygau a phrofedigaethau ieuengctid trwy lanw fy mynwes ag ysbryd crefydd a defosiwn, yr hyn sydd wedi bod yn gymorth i mi hyd yma.'

Rai blynyddau cyn hyn yr oedd *Dug Chartres* wedi cael ei ethol i'r swydd o *Honorary Colonel* yn y 14eg gatrawd, ond oherwydd diddymiad y cyfryw swyddi gorfu arno gymeryd llywodraeth bersonol ar ei fyddin, ac i'r perwyl hwn aeth ef ac *M. Pieyre* i *Vendome* yn Mehefin, 1791. Cymerodd cryn derfysg le yn Ffrainc yr amser hwn, oblegid gwrthod o lawer o'r Offeiriaid gymeryd eu llw yn ol y cynllun trefniedig gan y Llywodraeth. Yr Offeiriaid na chymerent y llw gosodedig a ymdifadid o'u personiaeth, ac mewn rhai manau a anmherchid yn fawr. Tra yr oedd Dug Chartres yn *Vendome* bu cynwrf mawr ymhlith y bobl, a thebygol y buasai dau o'r Offeiriaid anhapus wedi cael eu lladd oni bai iddo sefyll o'u plaid. Hyn o amgylchiad sydd wedi ei gofnodi yn y modd canlynol.—

Mehefin 27.—[Mae'n coffau ei bresenoldeb gyda'i fyddin mewn goryndaith grefyddol blaenoredig gan offeiriad, yr hwn oedd wedi cymeryd y llw appwyntiedig]. Yng nghylch hanner dydd yr oeddwn wedi arwain y fyddin yn ol, ond wedi gorchymyn iddi i aros yn ei harfau. Gwahoddais Meistriaid *Dubois, d'Albois, Jacquemin,* a Philippe i giniaw. Dygwyd imi y newydd fod torf o ddynion wedi ymgynull, a'u bod ar fedr crogi dau Offeiriad. Rhedais yn uniongyrchol i'r fan a chydâ mi *Pieyre, Dubois,* a *d'Albois.* Daethum i ddrws tafarndy

lle y gwelais ddeg neu ddeuddeg o'r *National Guards*, y maer, y *Town Clerk*, a rhifedi mawr o bobl yn gwaeddi, "Maent wedi torri'r gyfraith ; rhaid eu crogi wrth y *lamp-post*!" Gofynais i'r maer beth oedd yr achos o'r holl gynwrf hyn ? Atebodd, "Offeiriad annhyngol, neu un wedi gwrthod llw y llywodraeth, a'i dad, ydynt wedi rhedeg i mewn i'r ty hwn ; mae'r bobl yn dweyd eu bod wedi anmharchu M. Buisson, Offeiriad, yr hwn sydd wedi cymeryd ei lw, a'r hwn oedd yn cario'r cymun oddiamgylch ; ac nis gallaf eu rhwystro ymhellach. Yr wyf wedi anfon am gerbyd i'w cludo ymaith, a byddwch chwithau cystal ag anfon am ddau farchfilwr i'w diogelu." Gwnaethum hyny gydâ brys. Y maer oedd yn sefyll yn ddisyfl o flaen y drws, ac heb agor ei enau. Gan hyny cymerais arnaf gyfarch rai o'r terfysgwyr, gan geisio dangos iddynt mor anghyfiawn fyddai crogi dynion yn ddiholiad; ac heblaw hyn y byddent *hwy* yn cyflawni swydd dihenyddwr, yr hyn oedd yn gas yn eu golwg, a bod Barnwyr i gael, dyledswydd y rhai oedd penderfynu tynged y dynion hyn. Y terfysgwyr a'm hattebasant, gan ddweyd fod y Barnwyr yn bendefigyddion, ac nad oeddent yn cospi'r euog. Minau a ddywedais, "Bai eich hunain yw hyny, oblegid y maent yn cael eu hethol genych chwi ; ond ni ddylech gymeryd y gyfraith yn eich dwylaw eich hunain," O'r diwedd gwaeddodd rhyw un o ganol y dyrfa—"Arbedwn hwynt er mwyn *M. de Chartres*," 'Ie, ie, ie,' meddai'r bobl 'oblegid y mae ef yn wleidiadwr da ; mae wedi'n cynghori ni trwy'r boreu. Dygwch hwynt allan, ni wnawn un niwed iddynt.' Aethum i fynu i'r ystafell at y dynion druain, a gofynais iddynt a ymddiriedent eu hunain imi ; dywedasant y gwnaent. Aethum i lawr y grisiau o'u blaen, gan anog y dyrfa i beidio anghofio eu haddewid. Gwaeddasant allan drachefn, 'Byddwch esmwyth, ni wnawn un niwed iddynt.' Gelwais ar y gyriedydd i ddyfod a'r cerbyd ymlaen ; ar hyn gwaeddodd y bobl allan, 'dim cerbyd—ar draed, ar draed, fel y caffom y boddlonrwydd o'u hwtian a'u gyru allan o'r dref gydâ phob amharch.' 'Wel,' meddwn inau, 'digon boddlon wyf fi ; yr ydych yn ddynion rhy onest i dori'ch gair.' Cychwynasom ynghanol bonllefau enllibus. Rhoddais fy mraich i un o'r dynion, a'r maer oedd yr ochr arall iddo. Yr Offeiriad a gerddai rhwng *Meistriaid Dubois* a *d'Albois*. Yr oeddem yn myned a'n wynebau tua *Paris*, ond y dynion a attolygasant am gael myned tua *Blois*. Felly gorfodwyd ni i droi'n ol a chymeryd ffordd arall. Ac fel yr oeddem yn myned dros bontbren bychan heb ganllaw iddo, gwaeddodd y bobl am eu taflu i'r afon, a gwnaethant eu goreu i'w gwthio dros yr ymil, ond safasant yn llonydd ar ol imi eu hatgofio o'u haddewid. Pan yr oeddem wedi myned ynghylch milldir allan o *Vendome*, bobl y wlad a dyrent o'n hamgylch gan waeddi 'crogwch neu boddwch y ddau *rascal*!' Yr oeddent mor ffyrnig fel y gorfu arnom alw ymlaen un o'r *National Guards* i'n cynorthwyo. Teg yw dweyd i drigolion *Vendome* gadw eu gair, ac ymdrechu hefyd i berswadio bobl y wlad i fod yn llonydd. Meddyliais y byddai rhyw anffawd yn sicr o ddigwydd ini os y parhaem i fyned ymlaen fel hyny, a gwaeddais, 'mae'n rhaid eu cymeryd i garchar,' a chyd â hyny gwaeddodd y bobl oll, 'i garchar, i garchar.' Rhyw lais a glywyd yn gwaeddi allan o'r dorf, 'mae'n rhaid iddynt geisio maddeuant gan Dduw, a diolch i *M. de Chartes* am eu bywydau.' Fel yr oeddem yn teithio yn y blaen, rhyw ddyn a dryll yn ei law a safai gyferbyn â ni, gan waeddi 'ciliwch o'r neilldu fel y gallwyf danio attynt.' Gan gredu ei fod o bwrpas i'w saethu, safais rhwng y ddau ddyn ag ef, a dywedais 'cewch fy lladd i yn gyntaf.' Yr oedd y dyn yn lled drwsiadus, ac *M. Picyre* a ofynodd iddo, 'ai posibl y gallwch chwi ymddwyn fel hyn ?' Yntau

a attebodd, 'cellwair oeddwn ac nid oes ergyd yn fy nryll.' O'r diwedd y ddau ddyn a osodwyd mewn carchar i aros canlyniadau y gyfraith.

Awst 3.—Dedwydd ddiwrnod! achubais fywyd dyn, neu o leiaf buais yn offerynol i'w achub. Yn y prydnawn ar ol darllen ychydig o *Pope*, *Metastasio*, ac *Emile*, aethum i'r afon gerllaw i ymolch. Pan yr oedd Edward a minau yn gwisgo, clywais waeddi, '*Help, Help, Help*, yr wyf yn boddi.' Rhedais yn uniongyrchol tua'r man, ac *Edward* gydâ mi. Myfi oedd y blaenaf, ac nis gallwn weled ond yn unig flaen bysedd y dyn. Gafaelais yn ei law, ac yntau afaelodd ynof finau yn nerthol. Cydiodd ynof yn y fath fodd nes y buasem yn sicr o foddi ein dau oddieithr i *Edward* gymeryd gafael yn ei goes, ac felly ei rwystro i'm tynu tua'r gwaelod. Cawsom ef i'r làn yn rhywfodd. O'r braidd y gallai siarad, ond trwy'r cwbl diolchodd yn fawr i mi ac i *Edward*. Bydd yn llawenydd gan *Madame de Genlis* i glywed y newydd hyn.

Awst 11.—Diwrnod dedwydd arall! Yr oeddwn wedi cael fy ngwahodd i'r *Town-house* ddoe; ond heddyw yr aethum yno. Darllenwyd llythyr oddiwrth *M. Siret*, yr hwn a achubais i rhag boddi. Cynnygai fod i goron ddinasyddol *(civic crown)* i gael ei rhoddi i bwy bynag a achubai fywyd cydgreadur, ac o ganlyniad fod un i gael ei anrhegu i myfi. Cymeradwywyd y cynnygiad, a minau a dderbyniais y goron yng hanol bonllefau tyrfa luosog o edrychwyr. Yr oeddwn yn dra chywilyddgar, ond amlygais fy niolchgarwch goreu ag y medrwn.

Heblaw yr amrywiol lyfriadau yn ei ddyd-lyfr perthynol i'w swydd filwraidd, a'i ohebiaeth lythyrol, y mae hefyd yn achlysurol yn cofnodi testunau ei fyfyrdod. Un difyniad a wna'r tro i ddangos ei ddiwydrwydd ar y pen hwn.

"Boreu ddoe, allan gydâ'm byddin. Yn ol dychwelyd ymddihatrais o'm gwisg filwraidd, a darllenais ychydig o waith *Henault*, *Julius Cæsar*, *Sternheim*, a *Mably*. Ciniawais; ac ar ol hyny darllenais beth o *Ipsipyle*, *Metastasio*, a *Heloise Pope*. Ar ol pump o'r gloch darllenais ran o *Emile*.

Dylid sywi i'r hanes uchod gael ei ysgrifenu gan *Louis Philippe* pan yn ddwy ar bumtheg oed, ac o ganlyniad nis gall lai nâ bod ynddo lawer o bethau plentynaidd, ac i raddau yn feius hefyd efallai, ond ar y cyfan y mae'n anrhydedd i'r ysgrifenwr. Ychydig ddynion ieuaingc yn cael eu dwyn i fynu yn yr un amgylchiadau â *Louis Philippe* a ymddangosent i fwy o fantais. Ond pa fodd y gallsai cymaint o gyfnewidiad gymeryd lle ynddo wedi hyn, barned y ddarllenwyr.

Oddeutu canol Awst, 1791. *Dug Chartres* a'i fyddin a ymadawsant â *Vendome*, ac a aethant i *Valenciennes*, yng *Ngogledd Ffrainc*. Ym mis Ebrill 1792, cyhoeddwyd rhyfel yn erbyn *Awstria*, oblegid yr oeddit yn ofni ei bod yn gwneuthur darpariadau i ymosod ar *Ffrainc*, ac yn awr am y tro cyntaf y gwnaeth *Dug Chartres* sefyll ar faes rhyfel. Ymladdodd yn ddewr yn *Valmy* (Medi 20, 1792); ac ar ol hyny enwogodd ei hunan ym mrwydr *Jemappes*.

Fel hyn y terfyna y rhan flaenaf, a'r rhan ddedwyddaf o fywyd *Louis Philippe* Dilynir ef etto yn y rhifynau dyfodol, ac ymdrechir rhoddi hanes cyflawn o'r caledi y bu ef a'i deulu yndo."

MATTHEW MOSES.

Y BIBL CYMRAEG.

SYR,—Pwy bynag sydd yn gwybod y gwahaniaeth rhwng y Wyndodeg, y Ddeheubartheg, a'r Wenhwyseg, ac a ddarllen y Bibl Cymraeg yn fanol, nid all lai na sylwi fod ei iaith yn tueddu mwy i'r olaf nag i'r ddwy flaenaf.

Y ffaith hon am cymhellodd i chwilio gan bwy y cyfieithwyd yr Ysgrythurau Cymreig, a pha bryd: ond gan fod yr hyn a ganlyn yn dangos pa mor lleied wyf wedi llwyddo hyd yma, yn benaf o ddiffyg llyfrfa gynwysfawr o hynafaethau ein cenedl, teimlwn yn ddiolchgar iawn pe byddai rhyw un sydd yn meddu ar well manteision, i yn ychwanegu yn yr *Ymofynydd* at yr hanes byr a sych canlynol:

Os gwyr o Wynedd oeddynt y nifer amlaf o'r cyfieithwyr, fel yr ymddengys isod, pa fodd mae cyfrif am y ffaith mai y Wenhwyseg yn hytrach na'r Wyndodeg yw iaith y Bibl? A oedd y cyfieithwyr o'r un farn ac Edward Williams (Iolo Morganwg) yr hwn a ddywed "Fod y Wenhwyseg yn burach yn null ei hymadroddion na'r Wyndodeg, er bod llawer yn barnu yn amgen; ei bod yn nes o lawer at iaith ein gorhenfeirdd na'r Wyndodeg; nad ymarferodd un ysgrifenwr, nag ar gân, nag mewn rhyddiaith, erioed â thafodiaith Gwynedd, hyd ynghylch dechreu y bumthegfed ganrif?

Paham na chynnygid gwobrwy yn un o'r Eisteddfodau am yr hanes goreu o gyfieithiad yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg? Mi wn am wr bonheddig a roddai ddeg swllt yn rhan o'r gwobrwy. Mae yn bosibl bod llawer yng Nghymru a chwennychent gyfranu at yr un peth, pe byddai yn cael ei gynnyg mewn Eisteddfod.* Ond i gychwyn yn mlaen at y peth oeddwn yn fwriadu.

Ymddengys fod Llithiau Eglwys Loegr a ddarllenid ar y Cymun, y Suliau, a'r Gwyliau, wedi eu hargraffu yn Gymraeg mor foreu â'r flwyddyn 1551, sef yn nheyrnasiad Edward VI. William Salisbury o'r Caedu, plwyf Llansannan, Sir Dinbych, oedd y cyfieithydd. Hwn, medd yr hanes, oedd y trydydd llyfr a argraffwyd yn Gymraeg. Dywedir hefyd mai William Salisbury, Dr. Richard Davies,† a Thomas Huet, a gyfieithasant y rhan fwyaf, os nid y cyfan o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1567, sef y nawfed o deyrnasiad Elizabeth.§

Yn y flwyddyn 1588, cyhoeddodd Dr. William Morgan, Ficer Llanrhaiadr Mochnant,‡ yr holl Fibl yn llyfr unplyg. Diwygio testament Salisbury, yn hytrach na chyfieithu, wnaeth Dr. Morgan. Yr oedd yn ei gynnorthwyo Dr. W. Goodman, Deön Westminster; Dr. H. Bellot. Esgob Bangor; Dr. W. Hughes, o Sir

---

* Mae yn debyg i un Thomas Llywellyn, D.D., beirniad galluog yn sir Forganwg, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1796, gyhoeddi hanes gwahanol argraffiadau o'r Bibl Cymraeg. Os oes neb o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yn gwybod pa le mae y llyfr hwn i'w weled, teimlwn yn ddiolchgar iawn iddo am roddi gwybod i mi.

† Yr oedd Dr. R. Davies yn un hefyd o'r dysgedigion a appwyn tiwyd gan y Frenhines Elizabeth i gyfieithu y Bibl Saesneg. Gorfu ar y gwr rhagorol hwn ffoi dros y môr yn amser yr erlidigaeth fu ar y Protestaniaid yn nheyrnasiad Mari; ond fel cydnabyddiaeth am ei ymdrech yn achos Protestaniaeth gwnaeth Elizabeth ef yn Esgob Llanelwy, (*St. Asaph,*) ac wedi hyny yn Esgob Ty-ddewi. Claddwyd ef yn eglwys Abergwili, ger Caerfyrddin.

§ Mawr y carwn weled y Testament hwn; y mae yn sier o fod yn un o'r cywrein-bethau mwyaf yn yr iaith Gymraeg. Oddeutu deuddeg mlynedd yn ol dygwyddais weled pigion o hono a wnaed gan yr hybarch Dr. W. Richards, o Lynn. Cofus genyf fod y geiriau "Croeshoclia ef, croeshoclia ef;" a "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio," wedi eu cyfieithu "Croca ef, croca ef," a "Iesu Grist, a hwnw wedi ei groci."

Dywedir mai Salisbury ei hun gyfieithodd y Testament Newydd oll, ond yr ail lythyr at Timothy, yr Epistol at yr Hebreaid, a llythyrau Iago a Phedr, y rhai a gyfieithwyd gan Dr. R. Davies, a Llyfr Datguddiad Ioan gan Huet. Dywedir i Dr. R. Davies gyfieithu hefyd o ddechreu Deuteronomium hyd ddiwedd Ail Lyfr Samuel. Pwy gyfieithodd y gweddill o'r Hen Destament? A gyfieithodd Salisbury ryw ranau yn uniongyrchol o Destament Saesneg Tyndale? Yn eu gwaith yn cyfieithu, faint o ddefnydd wnaeth y cyfieithwyr Cymreig o'r Vulgate, a Bibl Saesneg Tyndale a Coverdale?

‡ Cafodd William Morgan, D.D., ei ddwyn i fynu yn St. John's College, Cambridge. Bu yn gyntaf yn Ficer y Trallwm, yn 1595 gwnaethpwyd ef yn Esgob Llandaf, yn 1601 cafodd ei symud i esgobaeth Llanelwy, lle y bu farw yn 1604.

Gaernarfon, Esgob Llanelwy; Dr. D, Powell, Ficer Rhiwabon; Mr. Edmund Prys, Arch-ddeön Meirionydd, yr hwn a drodd Salmau Dafydd ar Gân; a Dr. Richard Vaughn, o Sir Gaernarfon, yr hwn a wnaethpwyd yn gyntaf yn Esgob Bangor, wedi hyny yn Esgob Caerlleön-Gawr, ac yn olaf yn Esgob Llundain. Gwyr Gwynedd oeddynt gan amlaf, os nid oll,

Yn nheyrnasiad Iago I, diwygiwyd hefyd fibl Dr. Morgan gan Dr. Richard Parry,† Esgob Llanelwy, ac yn ei gynnorthwyo yr oedd Dr. John Davies, o'r Mallwyd, Meirionydd. Daeth y bibl diwygiedig hwn allan o'r wasg yn y flwyddyn 1620. Ar ei ddechreu mae llythyr Lladin at y Drindod Sanctaidd a'r brenin Iago. Oddieithr ychydig o gyfnewidiadau bychain, hwn yw y bibl Cymraeg cyffredin sydd yn awr mewn cymeradwyaeth.

Dyma sylwedd yr hyn wyf wedi allu loffa ar hyd maes hanesiaeth ein cenedl ynghylch cyfieithiad y bibl i'r Gymraeg, ac nid oes dim achos dyweyd wrth y ddeallus pa mor ammherffaith ydyw. Pa fodd bynag, dichon ei fod yn ddigon i ddangos mai gwyr o Wynedd oedd y cyfieithwyr.

Cymwys, efallai, cyn diweddu fyddai coffhau am enw un, os na fu llaw ganddo yng nghyfieithiad y Bibl Cyffredin, a fu er hyny yn llafurus dros ben yn ei ddydd i anrhegu ei genedl â Bibl Cymraeg; yr wyf yn meddwl y gwr dysgedig a duwiol hwnw Thomas Llywelyn o'r Clyneithinog ger Rhygos, Cwmnedd. Nid wyf yn meddwl y Dr. Llywellyn, a ysgrifenodd hanes cyfieithad y bibl Cymraeg. Yr oedd Llywelyn o'r Rhygos yn byw ugeiniau o flynyddau o flaen hwn, sef yn nheyrnasiad Edward, Mari, ac Elizabeth. Pa fodd y gallodd ddianc y ffagodau yn amser Mari nis gwn. Wedi i Llywelyn gael braint-lythyr oddiwrth y goleuad hwnw yn ei oes, ac un a fedrai barchu rhyddid cydwybod, y llariaidd Edmund Grindal, Archesgob Canterbury, bu yn ddefnyddiol iawn yng Nghwm-nedd a'r cymydogaethau o gylch. Pregethai mor fynych mewn tai annedd ac y gwnai yn yr Eglwysydd; bu yn foddion i ffurfio amrywiol o gymdeithasau crefyddol, yn mhlith pa rai y mae hen achos Blaengwrach. Ond y peth mwyaf nodedig yn hanes Llywelyn yw iddo oddeutu y flwyddyn 1540 gyfieithu Testament Saesneg Tyndale i'r Gymraeg. Yr oedd ei ysgrif-lyfr (oblegid ni argraffwyd erioed o hono) ar glawr yn y gymydogaeth oddeutu hanner can mlynedd yn ol, a dichon ei fod etto i'w gael pe cymerai rhyw un y drafferth i chwilio am dano. A oes rhyw rai o berthynasau Llywelyn yn awr fyw? Os oes, dichon fod yn ysgrif yn eu meddiant.

Efallai na fyddai yn beth hollol anghydweddol a natur y papyryn hwn i sylwi y byddai yn beth dymunol iawn pe cymerai rhyw un galluog mewn llaw i ysgrifenu *Traethawd* Cymraeg ar effeithiau dylanwad yr amrywiol foddion moesol ac ysbrydol sydd wedi bod yn *gweithio ar garacter* cenedl y Cymru o ddechreu teyrnasiad teulu Tudor hyd yr amser presenol. Sicr wyf y cai y fath Draethawd dderbyniad croesawus gan ugeiniau o bob enwad. Gwir, y mae Mr. Peter, wedi ysgrifenu "Hanes Crefydd yn Nghymru," ond pell iawn yw ei waith o ddyfod i fyny i'r peth y gellid yn rhesymol ddysgwyl ei fod. Y mae'r llyfr yn gofadail o ddiwydrwydd ei awdwr, ac yn cynnwys cruglwyth o *facts* wedi eu *croniclo* yn annhrefnus.

† Ar farwolaeth Dr. Morgan cafodd Dr. Parry ei wneyd yn Esgob Llanelwy. Yr oedd wedi bod flynyddau yn Athraw Ysgol Ruthin, ac un o'i ysgolheigion oedd Dr. John Davies, mab i wehydd o Llanferes, Dinbych. O ysgol Ruthin aeth Davies i Jesus College, ac wedi hyny i Lincoln College, Rhydychain. Cafodd bersoniaeth Mallwyd yn 1616, a bu farw yn 1644. Heblaw amrywiol o lyfrach creill, ysgrifenodd Ramadeg a Geiriadur Cymraeg cywraint, y ddau yn Lladin. Y mae'r Geiriadur wedi myned mor anaml fel mai anhawdd ei gael ar werth yn un man. Y mae yn cynnwys crynhodeb rhagorol o ddiarhebion Cymreig. Yr unig le y gwelais ef oedd yn llyfrfa Coleg Caerfyrddin. Am y Gramadeg, yr wyf yn meddwl i mi glywed fod ail argraffiad o hono wedi cael ei wneyd rai blynyddau yn ol.

Yr oedd gan Mr. P. ddigon o foddion i gyfansoddi hanesiaeth adeiladol; yr unig beth yn eisiau arno oedd gallu i *ddigesto* y pentwr, i olrain achosion ac effeithiau yn eu hanneirif gangenau, ac i nodi allan eu dylanwad ar *garacter* y genedl. Pe meddai rhai dysgedigion yn awr yng Nghymru, ag sydd wedi eu donio a rhagorach cynneddfau a gwell *judgment*, ar ddiwydrwydd Mr. P., a'i ddymuniad i wasanaethu ei genedl, ni byddem yn hir heb ein hanrhegu a hanesiaeth crefyddol a fyddai yn addurn i'n gwlad.

D. L. Evans.

SYLWEDD A'I BRIODOLEDDAU.*

Sylwyd o'r blaen mai y briodoledd gyffredinol honno o eiddo Sylwedd neu Ddefnydd a elwir at-dyniad (*attraction*) yw y peth ag sy'n cadw gwrthrychau ar wyneb y ddaear. Pe na bai yr at-dyniad yma yn gyffredinol ac yn barhâus, nis gallem rodio y ddaear gyda theimlad o ddiogelwch: byddem mewn perygl o gwympo drwy yr ëangder.

Feallai y byddai yn gymwys yma i sylwi ar rai ymddangosiadau a ellid ystyried eu bod yn anghysson â'r dyb fod y briodoledd hon yn perthyn i sylwedd neu ddefnydd o bob math, megys mwg, tarth, &c. Y mae yn wir fod mwg, tarth, a defnyddiau ysgafn o'r fath yn esgyn i fynu oddiar wyneb y ddaear; ond esgynant, nid am nad oes iddynt *ddim* tynfa at ganolbwynt y ddaear, eithr am fod iddynt *lai* o dynfa nâ defnyddiau sydd drymach nâ hwynt. Dangoswyd eisoes (os wyf yn cofio yn iawn) fod y tynfa at ganol-bwynt y ddaear yn mhob rhyw gorff, yn gyfartal i faintioli y defnydd a gynnwys, neu i'w bwysau. Os gosodir corcyn ar waelod llestr o ddwfr, a'i adael yn rhydd, yn y fan fe esgyn i'r wyneb. Bydd y corcyn wrth esgyn yn myned oddiwrth ganol-bwynt y ddaear. Nid yw yn iawn i gasglu oddiwrth hyny nad yw y briodoledd o at-dyniad yn perthyn i gorcyn fel sylweddau eraill. Gadawer corcyn yn rhydd mewn awyr, fe syrth yn rhwydd i'r ddaear; ond esgyn yr un mor rhwydd i wyneb y dwfr, am fod ei bwysau yn llai nâ phwysau corff o ddwfr o'r un maintioli. Felly am esgyniad mwg, tarth, &c.

Amgylchir y ddaear gan sylwedd hylifawl—yr awyr—oddeutu 45 milldir uwch eu harwynebedd. Y mae yr awyr yn myned yn ysgafnach fel yr elir i'r lan. Os gadewir fod y gwahanol hânau o honi o fewn chwarter milldir uwchlaw y ddaear yn drymach nâ mwg, &c., fe ganlyn y bydd i'r mwg, &c., esgyn uwchlaw iddynt, o herwydd yr un rheswm ag yr esgyna y corcyn i wyneb y dwfr. O herwydd yr un rheswm mae *balloon* yn esgyn. Er fod y defnyddiau o ba rai y gwneir ef yn drymach nag awyr, y mae yr ager (*gas*) a gynnwys yn lawer ysgafnach.

Y mae agweddiadau eraill o'r briodoledd hon, sef at-dyniad, ag sy'n rhaid i mi yn bresenol fyned heibio iddynt.

Cyn terfynu, nodaf allan y cyfryw briodoleddau na pherthynant i sylwedd o bob math, eithr i rai defnyddiau yn neillduol, pa rai, am hynny, a elwir yn briodoleddau damweiniol sylwedd (*accidental properties of matter*). Gwnaf hyn gan obeithio y maddeuir i mi anystwythder yr enwau Cymraeg a roddwyf arnynt.

1. Durfingder, neu galedrwydd (*density*). Y mae durfingder corff yn ymddibynu ar agosrwydd ei ronynau y naill at y llall. Y mae gronynau dwfr yn agosach at eu gilydd nâ gronynau awyr.

2, Tyllogrwydd (*porosity*). Y mae pob corff adnabyddus, i raddau, yn

* Dylasid fe allai sylwi ar y dechreu, mai wrth *sylwedd* y meddylir yma, *defnydd;* neu yr hyn a eilw y Saeson, matter.

meddu y briodoledd hon. Profwyd fod hyd yn nod *aur* yn dyllog, drwy osod dwfr mewn pelen gauedig o'r metel hwn. Pan osodid y belen dan bwysau mawr, tòrai y dwfr allan o honi yn chwys. Profwyd hefyd fod metelau eraill yr un modd yn dreiddiadwy gan ddwfr.

3. Cydwasgadwyaeth *(compressibility)*, sydd briodoledd a feddiennir gan y cyfryw ddefnyddiau a ellir lleihau eu maintioli heb leihau rhif y gronynau a'u cyfansoddant; megys *sponge*, awyr, &c. Gellir cyd-wasgu awyr i'r ganfed ran o'i faintioli cyffredin.

4. Y mae rhai defnyddiau a ad-enillant eu maintioli ar symudiad ymaith y gallu a'i cyd-wasgai; megis *india-rubber*. Galwaf y briodoledd hon gwrthneidiolrwydd *(elasticity)*.

5. Morthwyliadwyaeth *(malleability)* sydd briodoledd arall. Perthyn i'r cyfryw ddefnyddiau a ellir eu lledu allan drwy eu morthwylio heb eu tòri. Cymer aur ei forthwylio mor deneu nes y gall goleuni fyned trwyddo.

6. Hydynrwydd *(ductility)* a berthyna i'r cyfryw ddefnyddiau a ellir eu tynnu i'r ffurf wyfraidd. *Platina* a fedd y briodoledd hon mewn gradd mwy perffaith nâg un metel adnabyddus arall. Gellir ei dynnu i wŷrs mor fain â gwê y coryn.

7. Gludrwydd *(tenacity)* a breuder *(brittleness)* yw y priodoleddau diweddaf a gaf nodi.

Ar ôl y cyfan, dichon nad yw y priodoleddau uchod a elwir damweiniol, ond agweddiadau neillduol o at-dyniad a gwrthyriad. Nid yw dyn yn canfod ond arwynebedd anian. Nis gall dreiddio i'r dirgel achosion a effeithiant y diderfyn amrywiaeth o sylweddau, a ymddengys yn y greuadigaeth allanol. Gwaith Duw ydynt i gyd: a dangosant ei ryfeddol ddoethineb ef a'i fawredd annhraethadwy.

G.

CATWG DDOETH.

THOMAS AP IEFAN, o Dre'rbryn, Llangrallo, yn Morganwg, oedd brydydd a llen-feirniad da yn ei oes. Blodeuodd rhwng 1660 a 1700. Hynododd ei hun trwy ei ddiwydrwydd a'i sel dros hynafiaethau ein hiaith a'n cenedl, ond yn neillduol oherwydd yr aml addysgrifiadau a wnaeth o hen law-ysgrifiau Cymraeg, o ba rai daeth amryw i feddiant Iolo Morganwg, yr hwn oedd yn berthynas i deulu Tre Bryn.

LLYMA Ddoethineb Catwg Ddoeth o Lancarvan ab Gwynlliw ab Glywis ab Tegid ab Cadell Deyrnllwg, ac ef a elwir Catwg Sant.

At y Darllenydd hawddgar o Gymro.

Y Cymro caredig,—

Dyma i ti Lyfr Catwg Ddoeth, a elwir hefyd Catwg Sant: y mae wedi bod er hir o amser yn hynod yn ein Gwlad ni am y Doethineb sydd ynddo. Ymadroddion call a gai ynddo; mawr y perchid y rhai hyn gan yr hen Brydyddion, a phob hen awdur arall, a hyny a beris iddei hawdur gael yr enw Catwg Ddoeth.

Y mae y son am dano fal hyn yn yr hen lyfrau achau Catwg Sant, Abad Llancarfan, ab Gwynlliw arglwydd Gwynllwg, ab Glywis ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg. Yddoedd Gwynllwg yn un o Bendefigaethau yr hen Forganwg, ac yn myned o afon Taf hyd afon Wysg. Catwg oedd y mab henaf, ond ni fynai efe y Bendefigaeth; dewisai efe fod yn wr o ddysg a duwioldeb. Yn yr amseroedd hyny yddoedd cyfeiliorn mawr ar Grefydd yn ein Ynys ni, achos hud a thwyllfarn un o'n gwlad ein hunain a elwid Pelagius yn Lladin, ac yn Gymraeg, *Morgan*. Bu hyn yn achos i'r ychydig nad aethant a-gyfeiliorn ddanfon am y gwr duwiol a dysgedig o'r tu draw i'r môr, a elwir *Garmon Sant*. Efe a ddaeth i'n gwlad ni ac a bregethwys yr efengyl yn ei phurdeb, ac er dysgu ereill yn y pethau angenrheidiol iddeu gwneuthur yn ddysgodron gwirionedd; efe a ddodwys ysgolion da i fynu mewn llawer man, Y penaf o honynt oedd Caerlleon ar Wysg, a Llancarfan, a Llanilltyd Fawr. Enw y gwr cyntaf a ddodwys *Garmon* ar ysgol *Llancarfan* oedd *Dyfrig Sant*. Fe ddywedir mai yn y *Garnllwyd* ydd oedd e yn byw; ac y mae ffynon yno fyth a elwir *Ffynon Ddyfrig*. Wedi hyny gwnaethpwyd DYFRIG yn Esgob *Llandaf*, ac ar hyny dodwyd *Catwg* yn ben ar *Fonachlog Llancarfan* gan *St. Garmon*. Enw y Fonachlog oedd *Llanfeithin*, a'r enw hyn y sy fyth ar y lle. Fe wedir i Gatwg fyw yno nes ydoedd yn gant ag ugain oed; yn hynod dros ben am ei ddysg, a'i ddoethineb, a'i dduwioldeb. Ac yn ei Fonachlog ef y cafais

lawer o'r gwyr mwyaf dysgedig o'r oes eu dwyn i fynydd; cystal oedd gan *Ddyfrig*, esgob *Llandaf* am dano, fal y cymerai ef gydag ef i bob man, ac ar bob achos y bai eisiau cynghor a chynnorthwy, ac o achos hyny nid ai i fyw o'r *Garnllwyd*. Yddoedd *Catwg* yn un o'r Prydyddion goreu yn ei amser, a chymaint ei glod am ei ddoethineb fal ag ydd aeth ei gynghorion, a'i ymadroddion, a'i ddiarebion, a'i wediadau doethion ar gof a thafod yr holl wlad yn agos ac yn mhell, hyd yn oed iddo gael ar ei enw bob ymadrodd, a diareb, a gwediad, a gair doeth yn yr iaith Gymraeg, hyd oni lyncwys glod Catwg eiddo pob un arall; am hyny nid amlwg iawn i ni y dydd heddyw p'un ai Catwg ai rhyw un arall a ddywaid ambell peth o'r hyn a welir yn hyn o Lyfyr dan ei enw. Y mae ynddo gennyf heblaw hen lyfyr Catwg, y maint a welais i ar ei enw ef ar wasgar mewn llyfrau o hen waith llaw. Y mae llawer o bethau yn cael eu gwedyd am Gatwg Sant: un peth yw i'r Brenin Arthur ei wneuthur ef yn un o'i bedwar marchog ar hugain, canys fal hyn y gwedir am dano:—

"Tri chyfiawn farchogion Llys Arthur a fuant yn ben ynaid iddo; cyntaf, Catwg Sant, ab Gwynlliw Filwr, arglwydd Gwynllwg yn Morganwg; ail Blas iarll Llychlyn; trydydd, Padrogyl Baladrddellt, iarll Cerniw; cystal oeddynt eu cynheddfau a chymmaint eu gwybodaeth a'u doethineb, fel na wnelai un o honynt ond a fai drugar a chyfiawn, ac ymroddi a wnaethant i ymddiffyn pob un a gai gam ac annghyfraith, a phob ymddifaid, a gweddwon, a gweryddon, a dieithriaid rhag trais a gorddwy: Blas drwy Gyfraith Fud, Gorddwy drwy Gyfraith Arfau, a Chatwg drwy Gyfraith Duw a'i Eglwys.

Bu Catwg hefyd yn un o dri-phen-cyngor Arthur; fel hyn y gwedir am dano: Tri doethion Pen cyngor Arthur; cyntaf, Catwg Sant Abad Llancarfan, ab Gwynlliw Filwr; ail, Arawn ab Cynfarch; trydydd, Cynon ab Cludno Eiddin. Cystal oeddynt eu cynneddfau a'u deall, a'u hystyriaeth, fal na's caid amgen no llwydd erioed o wneuthur eu cyngor, nag aflwydd o beidio ei wneuthur.

Ac yn un hen lyfr y mae fal hyn:—Tri doethion Beirdd Llys Arthur; Catwg Sant fab Gwynlliw Filwr, Taliesin ben Beirdd, a Llywarch Hen, fab Elidir Llydanwyn. Cystal oeddynt eu cynneddfau fal na ddodynt amgen no gwir a doeth yn eu cerddi.

Tua diwedd oes Catwg fe ddarfu i rai o'r duwiolion fwriadu myned i Ynys Enlli, fal y gallent fod oddiar ffordd y terfysg ag oedd yr amser hyny yn ein gwlad o achos brad a gwrthryfel y Saeson. Dymunasant gael cyngor Catwg ar yr achos hyny, ac efe a'i rhoddes iddynt ar fesur cerdd, fel a ganlyn:—

Pan oedd saint senedd Frefi
Yn ol gwiw bregeth Dewi
Wrth arch pryffwn prophwydi
Yn myned i Ynys Enlli,
Er ymwared o bob rhwystri
A hir gymhell cymhelri:
Yna dywedes Gybi,
Pa fyd a geir yn ngweilgi,
Pa fwyd yn ymborth i ni
Yn nghanol y môr heli?
Catwg a ddywaid wrth Ddewi
Fal y gwnai y prophwyd Eli.
Duw a ro gynghor i chwi
Ar foroedd a daieri,
Goddefwch bob caledi
Nid ellir lles o ddiogi,
Trech doethineb no gwegi,
Trech llafur no direidi,
Dirwest a chred a gweddi
A orfydd ar bob cyfyngi;
Mil canhaws gan Dduw roddi,
No chan ddyn diddim erchi,
O chredir llyfyr Genesi,
Yr hwn a wiria i ni
Na chafas dyn ei eni
Heb gael gan Dduw ei borthi;
Gwell well Duw o'i addoli,
Gwaeth waeth y diawl o'i berchi.
Nag ofnwch a ddaw i chwi
Fwy no'r fwyalch yn nghelli,
Nid ardd, nid erddir iddi,
Nid llawenach neb no hi.
Archwn bawb i Dduw Celi
Arglwydd yr holl arglwyddi,
Yr Iesu a'i bum weli,
Ein dwyn drwy bob cyfrwystri
A'i gael yn gaullaw i ni,
Ac ni bydd raid i neb ofni.

CATWG SANT a'i Cant.

Mi allwn wedyd llawer mwy na hyn o'r hen lyfrau am Gatwg, ond fy mod yn dymuno na ddywedwn ond a ddichon fod yn wir. Y mae y Pabyddion wedi gwedyd pethau am dano y rhai nid oes y gronyn lleiaf o gred iddynt; canys fel y dywaid Catwg ei hunan—

"Nid gwir yw pob rhyfeddod,
Ond rhyfeddod yw pob gwir.,"

Y mae y lle gorau yn y byd i ni gredu mai celwyddau y Monachod Pabaidd yw y pethau rhyfeddol y gwedir am Gatwg. Twyll hanesion i gyd; ond amser a fu arnom y Cymmry fal ar genhedloedd eraill, pan y credid yr holl bethau anwireddus y sonir am dano. Y Pabyddion a ddodasant lawer peth ar enw Catwg na ddaethai erioed i'w ben ef; a chymmaint ag oedd yn amlwg i'm deall I o'r pethau hyny, mi a wrthodais a hwynt; ond fe all fod yma rai pethau na's gellir yn hawdd wybod p'un ai Catwg ai rhyw un arall a'u dywaid; canys fal y gwedais o'r blaen, pob peth cyffelyb idd ei eiddo ef a ddodid arno, ac nid oes genyf ond gadael i'r darllenydd hawddgar ei farn a'i feddwl am ambell peth; ac yn wir am y peth a fyno, a welo ar lawr yma. Arfer y byd yw dodi ar ddoeth ac

ar annoeth fwy nag y sydd yn ddyw iddynt: nid gwaeth i ti'r Cymro caredig o ben pwy y daethant a weli di yma, ac nid oes nag yn well nag yn waeth i neb beth ydynt, nag o bwy ydynt, ond eu bod yn ddoethineb ag yn wirioneddau. Digon i ti eu bod felly. Dilyn di y cynghorion da; ystyr di yr addysg ddoeth; cadw di ar gof y gwirioneddau tra mawr eu pwys a gai yn hyn o lyfyr; a Duw a'u bendithio nhwy i ti, ac i bawb o genedyl fy ngwlad, ac i bob un o'r byd; ac os cai di les a gwellhad buchedd o honynt, diolch i Dduw am hyny. Cadw enw y gwr sydd wrthynt ar dy gof gyda pharch; rho'th ail ddiolch i Gatwg er nad wyt yn addolwr saint; ac yn ddiweddaf na farn yn annghareddig arnaf finnau os dygwydd i ti weled amryw bethau na fot lwyr foddlon iddynt; minnau a ddymunaf hefyd i Dduw dy fendithio yn mhob peth; a hyny o lwyr ewyllys fy nghalon.

Yr eiddot yn mhob amcan dda,

THOMAS AP IEFAN.

Tre bryn, Dydd Calan, 1685.

(I'w barhau.)

BACHGEN Y MEDDWYN.

"MAM, y mae y bara yma yn galed iawn: p'am na baem ni yn cael teisennau a phethau moethus, fel y byddem arferol o gael pan oeddym yn y ty mawr? O! hwnw oedd dy tlws, mam; ac yr oeddwn i yn hoffi byw yno felly! Yr oeddych chwithau yn gwneud perorïaeth felys yno, a chanai fy nhad yn hyfryd! Byddai fy nhad yn arfer chwerthin yr amser hwnw, a chymerai finnau ar ei ben, gan ddywedyd fy mod yn fachgen anwyl iddo ef ei hun. Beth sydd yn gwneuthur fy nhad yn sâl, mam? Mi ddymunwn iddo beidio bod yn sâl, am ei fod yn fy nychrynu pan fydd efe yn *stampio* ar y llawr, ac yn gwaeddi mor uchel, '*Dafydd*, dos i ffwrdd i'r gwely.' Pa bryd y daw efe yn iach, ac y cymer fi ar ei ben, a fy ngharu fel y byddai yn arfer gwneud? Ond, mam, y mae deigryn yn eich llygad: gadewch i mi ei sychu: dyna un arall yn dyfod; O, ac un arall! Ai myfi barodd i chwi wylo y dagrau yma, mam?" "Ust! fy machgen bach, nis gelli di attal dagrau dy fam; oherwydd y maent yn gorlifo o galon ag sy'n llawn o obeithion wedi gwywo, ac o ing a blinder. Nis gall dy fam ddweud wrthyt pa bryd y daw dy dad i dy garu; oblegid, och fi! y mae dy dad yn feddwyn," Clywais fachgen braf, prin pedair blwydd oed, yn siarad fel yna yn floesgaidd â'i fam, ac yr oeddwn yn teimlo drosto o ddyfnder fy nghalon wrth ei glywed. Buasai ei dad unwaith yn gyfoethog a chysurns ei fyd, a bron addoli ei fab bychan; ond mewn awr ofnadwy dechreuodd lymeitan o'r cwpan meddwol; a chryf haodd yr arferiad, nes o'r diwedd y llwyr ddinystriwyd heddwch y teulu, y chwalwyd eu cysuron, ac y gadawyd Dafydd bach yn dlawd ac amddifad.

CYF.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

YMGYFERFYDD y Senedd Ymherodrawl dydd Iau, y 1af o Chwefror. Ni wyddys etto yn sicr am un mesurau neillduol o bwys ag y mae y Llywodraeth yn bwriadu eu dwyn yn y blaen. Cawn weled erbyn y Rhifyn nesaf. Ond y mae yn ddigon sicr fod Mr. Cobden a'r *Financial Reform League* yn benderfynol i ddwyn cynnygiad yn mlaen er gostwng *deng miliwn* ar drethi y deyrnas; a haerant y gellir hyny yn rhwydd ac yn ddiberygl trwy yn unig leihau nifer a thraul y fyddin a'r llynges, a dwyn swm y tâloedd i lawr i'r hyn ydoedd yn y flwyddyn 1835. Tebyg mai yr esgus a roddir gan y llywodraeth dros gadw i fynu y taloedd fydd, y rhyfeloedd costfawr yn yr India, &c., ynghyd ag *ofn* rhyfel â Ffraingc. Nid anfuddiol fyddai cyfrif pa faint mwy sydd yn cael eu lladd yn flynyddol gan ein milwyr yn yr India a

gwledydd eraill, nag y sydd yn cael eu hefengyleiddio gan y Cenhadon Cristnogol. Y mae yn bryd bod gwlad mor oleu â Phrydain Fawr wedi dysgu bellach y ffordd i benderfynu dadleuon heb fyned i ryfel. Ond fel y dywed yr offeiriad a'r clochydd, "Megis yr oedd yn y dechreuad y mae yr awr hon ;" ac felly, ofnwn, y mae yn debyg o barhau dros ryw ennyd etto. Rhyfel a ennyn ryfel, ac yn y cythrwfl ni wrandewir ar lais "meibion heddwch." Arswydus yw darllen am y creulonderau a oddefir i Windischgrätz a'i filwyr i wneuthur yn ngŵydd Ewrop yn y dyddiau hyn, a'r difrod a ddygant ar faesydd a dinasoedd Hungary!

Yr oedd yn dda genym weled y cynnygiad a ddygodd M. Bouvet yn ddiweddar o flaen y *National Assembly* yn Paris ; sef, gan ystyried fod rhyfel yn groes i grefydd, i ddynoliaeth, ac i lwyddiant cyffredinol ; penderfynu o'r *National Assembly*, Yn 1. Bod gwerin-lywodraeth Ffraingc yn cynnyg ar fod i deyrnasoedd Ewrop, America, a gwledydd gwâr eraill gyduno mewn cynnadledd *(conference)* er lleihad cyfartal o'u byddinoedd, difodi rhyfel, a ffurfio llys athrywyniad *(arbitration court)*. 2. Bod i'r Gynnadledd ddywededig gael ei hagoryd ar y dydd cyntaf o Fai, 1849, yn Nghaercystenyn. Cynnygiad rhy dda, ysgwaethyroedd, i amgylchiadau presennol Ffraingc. Pe bai i Ffraingc, mewn gwirionedd, wneud y fath gynnyg i deyrnasoedd eraill, braidd y credent nad cellwair fyddai. Ac am y *Grand Seignor*, Penaeth y Mahometaniaid, tost yw dweud y byddai yn fwy o orchwyl na feddylid i'w berswadio y deuai y Cristnogion i gwrdd yn ei brif-ddinas ef er mwyn gwneud heddwch â'u gilydd.

Pa bryd y symudir y gwarth hwn! Y mae efengyl Crist yn cael cam mawr ar ddwylaw ei phroffeswyr annheilwng. Dechreuer y diwygiad gyda pob un yn *nghartref*, a chyn hir daw y gwelliant yn gyffredinol. Symuder caethiwed, trais, a gormes ; rhodder heibio offerynau barbaraidd, y cannon, y cleddyf, a'r grog-bren ; a defnyddier yn eu lle addysgiad, cyfiawnder, brawdoliaeth, a chyfreithiau têg, yna fe dderfydd rhyfel : bydd farw o eisiau ymborth. Ond pa bryd y daw hyn? Gobeithio fod y wawr wedi tóri!

Y CHOLERA

Y mae y plâ hwn hyd yma wedi dyfod yn ysgafnach ar ein gwlad nag a fuasid yn ei ofni ; ond torrodd i maes mewn modd galarus yn Tooting, mewn sefydliad lle y cedwid plant tlodion Llundain. Y nifer o blant yn y sefydliad oedd tua 700 ; telid 4s. 6c. y pen am eu cynhaliaeth. Cafodd 350 o honynt eu taro yn glaf o'r cholera, o ba rai y bu 120 farw. Yn y treng-holiadau a gynhaliwyd ar y cyrff, cytunid yn gyffredin nad oedd Mr. Drouet, perchen y sefydliad, wedi cymeryd y gofal dyledus am y plant.

GWERIN-ADDYSGIAETH

ABERHONDDU.

Ar ddydd Iau, y 4ydd o Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i sefydlu Coleg *cyffredinol* er addysgu y Cymry, yn unol â chynnygiad W. Williams, Ysw., y diweddar A.S., dros Coventry. Y mae i fod yn Goleg *cyffredinol*, deallwn, mewn cyferbyniad i'r *Normal College*, yr hwn, y mae yn debyg, sydd wedi ei benderfynu bellach i fod dan lywodraeth y *chwech plaid* yn unig. A chan ei fod yn golygu addysgiaeth y genedl yn gyffredinol, erfynir cymhorth tuag ato oddiwrth ewyllyswyr da o bob plaid, ac heŷd oddiwrth y llywodraeth. Yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod amryw foneddigion gwladgarol, a Maer y dref yn y gadair. Ymhlith eraill, Col. Lloyd V. Watkins, A.S., Dr. Lucas, J. Jones, Ysw., Glanhonddu, D. Thomas, Ysw., Howell Gwyn, Ysw., A.S., &c., &c. Cytunwyd ar fod eisiau y fath Goleg ar y Cymry, a phenderfynwyd ar ei sefydlu. Deallwn y bydd cyfarfod i'r un pwrpas i gael ei gynnal yn Abertawy cyn diwedd mis Ionawr, pan y dysgwylir i'n cyd-wladwr W. Williams, Ysw., fod yn bresennol

---

FFRAINGC

Mercher, yr 20fed o Ragfyr, cyhoeddwyd Louis Napoleon Bonaparte, yn y *National Assembly*, yn Llywydd Gwerin-lywodraeth Ffraingc o'r dydd hwnw allan hyd yr ail Sul yn Mai, 1852. Gwnaed hyn mewn modd trefnus, a chyda symlder mawr.

Wedi i Cavaignac, mewn araeth fer, roddi i fynu mewn trefn ei swydd a'i awdurdod i'r Assembly, gan ddiolch iddynt am y parch a'r

cyd-ymdeimlad a brofasai ar eu llaw, cyfoddodd Llywydd yr Assembly i fynu, a chyhoeddodd "o flaen Duw a'r gynnulleidfa," fod dewisiad y bobl wedi syrthio ar Louis Napoleon; ac yna galwodd ar y Llywydd etholedig i ddyfod yn mlaen, ac i gymeryd llw o ffyddlondeb i'r Werin-lywodraeth, a'i chyfreithiau sefydledig. Ar hyn esgynodd Louis Napoleon i'r areithfa, a chymerodd y llw o ffyddlondeb, a gwnaeth araeth, yn yr hon y proffesai ei benderfyniad gwresog a chalonog, hyd eithaf ei alluoedd, i ddwyn yn mlaen lles a llwyddiant y Weriniaeth. Ar ol disgyn o'r areithfa aeth yn gyntaf, ac yn annysgwyliadwy, i'r lle yr oedd ei gydymgeisydd Cavaignac yn eistedd; ac yn y man darfu i'r ddau siglo llaw mewn modd tra chyfeillgar, er mawr foddlonrwydd i'r gynnulleidfa oll. Ar ol hyn, hysbysodd y Llywydd i'r Assembly ei fod wedi gosod ar M. O. Barrot i drefnu ei weinyddiaeth. Yna yr aeth allan gyda M. O. Barrot, M. L. Malleville, a chynnrychiolwyr eraill; ac hebryngwyd ef i'w balas mewn modd anrhyddeddus.

Y Sul canlynol (y 24ain) yr oedd y Llywydd newydd yn arolygu y milwyr, a mawr oedd y rhwysg cysylltiedig a hyn. Derbynid ef yn dda gan y milwyr a'r bobl; rhai o honynt ar ei ymddangosiad a'i cyfarchent â bonllefau, "Byw fyddo Louis Napoleon," eraill, "Llywydd y Weriniaeth," &c., &c.

Yr oedd amryw o deulu Bonaparte wedi crynhoi i fod yn llygad-dystion o'r olygfa gyffrous yma, mewn cyssylltiad ag adgyfoddiad eu tylwyth i arglwyddiaethu ar Ffraingc. Yn eu mysg yr oedd Jerome Bonaparte, a fu yn frenin Westphalia, a M. Napoleon, ei fab, yr hwn sydd aelod o'r *Assembly*. Dywedir fod y mawr sêl a ddengys yr olaf dros y Werin-lywodraeth wedi peri anfoddlonrwydd i'w gefnder. Er mwyn cael gwared o hono cynnygwyd iddo i fyned ar genadwri i Brussels, ac wedi hyny i Lundain. Hyd yma y mae wedi gommedd ymadael â Ffraingc. Yr oedd ef, y pryd hwn, fel milwr cyffredin yn y lleng gyntaf o Warchawdlu Gwladwriaethol Paris; a phan ddeallodd ei gyd-filwyr pwy ydoedd, hwy a'i gosodasant gerllaw y lluman. Pan ddaeth y Tywysog-Lywydd gyferbyn â delw y diweddar Ymherawdwr, yr hon sydd ddyrchafedig ar golofn ardderchog, efe a safodd gyferbyn â hi am fynyd, gan grymu ei ben yn barchus o flaen y gwron: ar yr hyn gorfloeddai y miloedd o edrychwyr yn y modd mwyaf brwdfrydig, "Byw fyddo Napoleon," a gwelid eu dagrau yn treiglo dros ruddiau cannoedd o'r hen wroniaid a gofient yr Ymherawdwr yn ei rwysg buddugoliaethus. Bernir fod yn Paris o gant i chwech ugain mil o wyr dan arfau ar yr achlysur yma.

Aeth yr holl arolygiaeth heibio yn dangnefeddus, gan adael argraffiadau ffafriol i'r llywydd ar feddyliau y lluaws.

Ond yn fuan ar ol hyn cyfododdd amryw amgylchiadau ag sydd wedi peri peth anesmwythder, a chryn ofn na fydd i'r werin-lywodraeth fyned yn mlaen yn dawel a llwyddiannus.

Llwyddodd mwyrif o'r *Assembly* i ostwng treth yr halen yn groes i gynnygiad y llywodraeth.

Rhoddodd M. Malleville, y gweinidog cartrefol, ei swydd i fynu oherwydd (fel y dywedir) fod y llywydd yn honi ei hawl i bennodi rhaglawiaid y taleithiau, ac i gael yr holl hysbysiadau swyddol trwy y *telegraph*, yn gyfeiriedig ato ei hun, ac nid at y gweinidog cartrefol, yr hyn a ymddangosai i M. Malleville yn beth afreolaidd a thrahâus.

Y mae M. Thiers hefyd a'i blaid hyd yma wedi cadw ar wahân oddiwrth y Llywydd a'i weinyddiaeth.

Ymddengys yn mhellach fod oerfelgarwch mawr yn ffynu rhwng rhan fawr o'r *Assembly* a'r gweinidogion sydd wedi eu galw yn Gynghorwyr gan y Llywydd; ac wrth weled hyny y mae y werin mewn amryw o'r taleithiau, y rhai a etholasant Louis Napoleon i'r Llywyddiaeth, ag ydynt yn teimlo pryder naturiol am iddo gael chwareu têg i weinyddu ei swydd bwysig, yn dechreu cynhyrfu o eisiau cael dadgorffori y *National Assembly*, a dewis un arall yn ddioed; ac y mae deisebion i'r pwrpas hyny yn cael eu hanfon i fynu o bob cwr o'r bron. Ond ymddengys y rhan fwyaf o'r *Assembly* hyd yma yn benderfynol na chymerant eu dadgorffori ar frys, nac etto ychwaith i nodi amser eu dadgorfforiad. Y mae cryn ansicrwydd pa fodd, a pha bryd, y terfyna yr anghytuneb.

Deallid, er ys dyddiau, fod y Llywydd yn lled-dueddu i newid ei holl Weinidogion, gan gymeryd i mewn i'w Gynghor flaenoriaid y blaid fwyaf Radicalaidd. Y mae yn wirionedd fod M. T. Bac, un o flaenoriaid y blaid a gyfenwir y *Mountain*, wedi cael llawer o ymddyddan cyfrinachol â'r Llywydd yn ddiweddar.

Mynai y blaid yma berswadio y Llywydd fod y blaid gymedrol yn gwneyd defnydd o enw y Llywydd i wanychu y Weriniaeth, a pharotöi ffordd i adferu y Duc de Bordeaux, neu y Count de Paris, ŵyr yr hen Louis Philippe. Ac wrth ganfod fod ei weinidogion presenol yn cael eu gwrthwynebu yn barhâus gan yr *Assembly*, ni theimlai y Llywydd anaddfedrwydd i wneyd cynghrair â'r blaid grybwylledig, gan benu M. Duclerc, M. de St. Hilaire, M. Cremieux, M. Bac, &c., yn weinidogion ei lywodraeth.

Pan ddeallwyd bod hyn yn myned ar lled yn mysg y bobl, barnai y Llywydd yn angenrheidiol roddi rhywfaint o eglurhad ar ei fwriadau: gan hyny, mewn gwledd a roddid gan M. de Changarnier, dywedai Louis Napoleon yn ei araeth ei fod yn hollol barod i amddiffyn ei weinyddiaeth gymedrol, ond i'r

blaid gymedrol roddi eu *blaenoriaid* iddo yn weinidogion yn lle eu gwŷr cyffredin, gan gyfeirio at omeddiad M. Thiers, M. Molé, M. Bugeaud, a Changarnier, i ffurfio gweinyddiaeth, ac o ganlyniad gorfodid y Llywydd i bennodi dynion llai eu doniau a'u dylanwad i lanw y lleoedd a fwriadasai iddynt hwy; ac ychwanegai, os bydd i'r *Assembly* barhâu i ymgyndynu, gan omedd ymddadgorffori, a pharhâu i wrthwynebu holl weithrediadau eil lywodraeth, y byddai yn rhaid iddo ef ffurfio llywodraeth newydd o'r blaid luosocaf yn yr *Assembly*.

Y mae y Llywydd hefyd yn cyfarfod ag anhawsderau yn ei ymwneud â llysoedd brenhinol Ewrop. Yn ol adroddiadau y cenhadon ffyddlon a anfonodd ef i Berlin, Petersburg, a Vienna, nid yn roesawus y derbynir enw Napoleon yn y llysoedd hyny. Dywedir ei fod yn sicr yn bresenol, os anfonir cenhadau i'r llysoedd hyn, y gofala y Llywydd anfon rhai na byddo eu henwau yn adgoffâu amserau yr Ymherodraeth Ffrengig. Barna rhai mai hyn barodd iddo roddi i fynu ei fwriad o bennodi ei gefnder, Napoleon Bonaparte, i fod yn Genhadwr i lys Prydain Fawr; ond ereill, mai ei gefnder sydd yn gomedd myned.

ITALY

Ar fyr wedi ffoedigaeth y Pab, anfonwyd cenhadon gan brif swyddogion Rhufain ato i'w gymhell i ddychwelyd yn ôl at ei bobl; ond fel yr oeddynt yn dyfod at ffiniau teyrnas Naples cyfarfyddid â hwy gan genad oddiwrth y Pab, yn eu hysbysu nas derbynid hwy ganddo ef; ei fod eisioes wedi darbod at lywodraethiad Rhufain yn ei gyhoeddiad ar y 27 o Dachwedd; a'i fod yn gobeithio y byddai i drugaredd y nef ddisgyn yn fuan ar ei bobl, ac y dychwelent i'w hiawn bwyll. Nid oedd dim i'w wneud gan y cenadon, fel yr anfonid hwy y naill ar ol y llall, ond dychwelyd adref i fynegi i'w cyd-ddinasyddion y modd y buasai arnynt gyda'u cenhadwri; a dywedir fod y newydd yma wedi effeithio yn fawr ar ddinaswyr Rhufain. Barnwyd yn gyffredinol nad oedd y Pab ddim gwell nâ bod yn fath o garcharor yn Gaeta, yn nwylaw y blaid wrthwynebol i bob diwygiadau, dan flaenoriaeth Brenin Naples, yn offeryn i gyflawni eu hewyllys hwy yn unig; a chredai y Rhufeiniaid yn gyffredinol mai trwy hudoliaeth y olaid ddichellgar hono y llithiwyd ef i ffoi oddiwrth ei bobl.

Yn eu heisteddiad, ar yr 8fed o Ragfyr, darfu i Ystafell y Cynnrychiolwyr gymeryd adroddiad y genadwri uchod dan eu hystyriaeth; a chymeradwywyd y cynnygiad ar fod pwyllgor o bump o aelodau i gael ei enwi i gynnyg unrhyw foddion a ymddangosent yn anghenrheidiol er daioni y wladwriaeth. Wedi hyn'aeth yn fwy-fwy annhebyg y byddai i'r Pab gael ei adferu i'w rwysg gwladol. Dywedai y gweinidog Sterbini mai dan teitl esgob yn unig y gallai y Pab gael hawl bellach i ddyfod i Rufain; ac y rhoddid gwaharddiad pennodol i gardinaliaid ac esgobion na ddelent i'r ddinas. Ar y 29ain o Ragfyr cyhoeddwyd trwy'r ddinas y gorchymyn i ffurfio *Constituent Assembly*, fel gwnaed yn Ffraingc y gwanwyn diweddaf; ar yr 28ain ergydid 101 o ergydion oddiar fagnelfa Castell St. Angelo fel hysbysiad i'r ddinas ac i'r byd fod y llywodraeth fu yn teyrnasu ar Rufain 1048 o flynyddoedd wedi dyfod i ben, a ffurf-lywodraeth newydd i gael ei sefydlu trwy bleidleisiad cyffredinol; cloch fawr y *capital*, yr hon na seinir ond yn unig ar farwolaeth Pab, a seiniai drwy'r dydd, er oer-ganu cnull ysgariad rhwng awdurdod eglwysig ac awdurdod dymhorol y Pab. Y mae y llywodraeth newydd yn myned yn mlaen yn dra rheolaidd; ond bod y werin yn cael eu cyffröi ar droion. Unwaith tòrasant i mewn i fasnachdai, a dygasant oddiyno yr holl hetiau Cardinaliaid a allent gael gafael arnynt, gan eu dwyn mewn gwawd drwy'r ddinas, ac yna eu taflu oll i'r afon Tiber, gydâ'r fonllef fawr, 'Angeu i'r Cardinaliaid.' O'r tu arall, y mae y Newyddiaduron, yn nghyd ag ymddangosiadau i'r perwyl, yn rhoddi ar ddeall fod y gwledydd Catholig, Awstria, Ffraingc, Yspaen, a Naples. ar gytuno i adferu y Pab i'w awdurdod yn Rhufain, ac i roddi milwyr iddo i'w amddiffyn ef a'i lywodraeth. Dywedir fod brenin Naples yn aros yn ddiflin gyda'r Pab yn Gaeta. Nid oes dim wedi ei benderfynu rhwng brenin Naples â'i ddeiliaid gynt yn Sicily.

AWSTRIA

Nid yw y *Diet* Awstriaidd, yn Kremsier, yn cyd-dynu yn wych â gweinyddiaeth yr Ymherawdwr ieuangc. Fel y buasid yn ofni, llwyddodd byddinoedd Awstria i gymeryd Presburg, Raab, Pesth, Ofen ac eraill o ddinasoedd Hungary, un ar ol y llall. Enciliai y fyddin Hungaraidd o'u blaen, gan adael i'r hin afrywiog i wneud ei waith ar eu gelynion, er eu lleihâu a'u gwanhau. Daeth newyddion fod brwydr waedlyd wedi cymeryd lle rhwng byddin Jellachich â'r Hungariaid o dan Kossuth; lladdwyd rhai miloedd o bob ochr. Goddefir i Windischgrätz, cigydd Vienna, gael myned yn mlaen yn nghreulonder ei rwysg.

Disgwylir y bydd i'r Undeb Almaenaidd yn Ffrankfort yn fuan benderfynu ar ryw gyfnewidiadau pwysig, neu ynte ddyfod i'r dim.

AMERICA

Aur California yw testun mawr a chyffröus yr adroddiadau a gafwyd yn ddiweddar o'r Unol Daleithiau. Y mae California yn sefyll ar lan y Môr Tawel; rhandir ydyw a drosglwyddwyd i'r Unol Daleithiau gan lywodraeth Mexico gyda'r heddwch a gytunwyd yn ddiweddar rhwng y ddwy wlad. Pan aeth y sŵn i maes fod mŵn aur i'w gael yn dra aml yno, ymgasglodd lluaws nifeiriol o'r holl daleithiau i'r *El Dorado* newydd. Dywedir fod y goror euraidd yn fawr iawn, a digon o fŵn aur ynddo i roi gwaith ennillgar i gan mil o ddynion am genhedlaethau i ddyfod! Ac hyd y gwnaed ymchwiliad, fod yr aur i'w ganfod dros wlad sydd yn 400 milldir o hyd, wrth 150 o filldiroedd o led; fod y llwch aur i'w gael yn yr afon ac ar y gwastadedd; ond ar y creigiau a'r ucheldiroedd, ei fod i'w gael yn ddarnau sylweddol, rai o honynt gymaint â dwrn dyn

---

Effaith Gofid.—Adroddir am Guarino Veronesa, un o hynafiaid awdwr y gân a elwir 'Pastor Fido,' iddo fyned i Gaercystenyn am ryw amser i ddysgu Groeg, a dwyn gydag ef! oddi yno ddau goffraid o ysgrifl yfrau Groegaidd, y rhai a gasglasai yn nghyd drwy ddiwydrwydd a thrafferth mawr. Collodd un o'r coffrau hyn, drwy i'r llong yr oedd ynddi fyned yn ddrylliau ar y môr, a gofidiodd yntau gymmaint, o herwydd colli trysor mor werthfawr, am yr hwn y llafuriasai mor ddibaid, fel y trodd ei holl wallt yn wyn mewn un noswaith.

Carwriaeth hynod.—Yr oedd y diweddar Barch. John Brown, o Haddington, yn ddyn nodedig mewn amrywiol ystyriaethau, ac nid yn llai felly yn ei ddull difrif-ddwys o gario yn mlaen ei garwriaeth, yr hyn a barhaodd am saith mlynedd, chwe' mlynedd a hanner o ba rai a aethant heibio cyn iddo ddyfod gam yn nes na'r chwe diwrnod cyntaf. O'r diwedd, fel yr oedd yn eistedd gyda'i hoffus Janet, cyd-gasglodd Mr. Brown ei holl wroldeb, a ddywedodd "Yr ydym wedi bod yn cadw cyfeillioch er's chwe mlynedd a mwy, ac ni chefais gymaint ag un cusan eto—a ydych chwi yn meddwl, Janet, y gallaf gymeryd un?" Atebai hithau, "Fel y gweloch yn dda, John; ond i chwi fod yn syml ac addas gyda hyny." "Sicr iawn, Janet, ac ni a ofynwn fendith." Y fendith a ofynwyd, a'r cusan a gymerwyd, a'r duwinydd clodwiw, wedi ei lwyr orchfygu gan y teimlad dedwydd a ddilynodd y cusan, a ddywedodd, "O wraig, y mae yn dda iawn; ni a ddylem dalu diolch." Chwe mis wedi hyny a wnaeth y cwpl duwiolfrydig yn ŵr a gwraig; a threuliasant oes hir, dedwydd, a defnyddiol gyda'u gilydd. Adroddwyd yr hanesyn hwn gan fab iddynt.

GOFYNIADAU

Anwyl Syr,—Crefir trwydded genych i drosglwyddo yr ychydig ofyniadau dilynol i sylw y doethion, a mygedawl ohebwyr eich Cyhoeddiad:—

1. A fuasai marwolaeth yn bodoli ar y ddaear pe na buasai ein tad cyntefig *Adda* yn tŏri gorchymyn Duw, yr hwn a ddywedai, "O bob pren o'r ardd, gan fwyta, y gelli fwyta; ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta o hono; oblegid yn y dydd y bwytäi o hono, gan farw y byddi farw?"

2. Pa beth a feddylir wrth y geiriau *lluosog* sydd yn Gen. 1, 26, pan y dywedir "*Gwnawn* ddyn ar *ein delw ni*, wrth *ein* llun *ein hunain?*" Pa beth sydd i feddwl wrth hyn? A ydym i feddwl fod ein *Crewr*, neu y *Bôd* mawr, yn Fôd amrywiol a gwahanol, ai nid ydyw? Neu ynte fod y geiriau yn arwyddocâu un Bôd ai peidio?

3. A fyddwch chwi neu rai o'ch gohebwyr caredig mor fwyn â rhoddi ychydig o eglurhâd ar Zech. 14, 4, 5, i un o'ch cyson ddarllenwyr?

Gwilym Robert, *Dinas.*

[Barnwn na fu G. R. yn ddarllenydd cyson o'r Ymofynydd y flwyddyn ddiweddaf, onite buasai yn gwybod fod ei ofyniad cyntaf wedi cael ei ystyried a'i drafod yn lled fanwl yn y darlithiau ar Bechod Gwreiddiol.---Gol.]

Syr,--A fyddwch chwi neu rai o'ch gohebwyr medrus mor dda a rhoddi esboniad i mi ar Gen. 6, 6,---"Ac edifarhaodd yr Arglwydd wneuthur o hono ddyn ar y ddaear; ac efe a ymofidiodd yn ei galon."

TREDEGAR.

MARWOLAETHAU

Ar y 1ofed o Dachwedd diweddaf, yn 45 oed, Mr. John Lloyd, ysgrifenydd yn swyddfa gweithiau haiarn ac efydd Cwm Afon. Gadawodd weddw ac un ferch i alaru ar ei ol. Hebryngwyd ei weddillion tua'r gladdfa gan dorf luosog.

Rhagfyr yr 28ain o'r dwymyn, yn 26 oed, John, mab Dafydd a Margaret Llewelyn, o blwyf Aberdare. Yr oedd yn ddyn ieuangc addfwyn a chariadus, diwyd a gonest trwy ei fywyd. Yr oedd o chwaeth neilduol at Berioriaeth, a daeth i fod yn dra medrus ar y Bass Viol. Teimlir galar a chollad ar ei ol gan ei gyd-gantorion yn yr Hen Dy-Cwrdd; ond nid heb obaith am ail-gyfarfod mewn byd gwell.

Ow! angau yn glau a'i gledd---a dorrodd
Un tirion i'r ceufedd;
Aeth Ioan wiwlan ei wedd
O glyw byd, dan glo y bedd.

Aberdare. Eiddil Glan Cynon.

Ar laf o Ionawr diweddaf, yn 76 oed, Pryse Pryse, Ysw., A.S. dros fwrdeisdrefi Aberteifi am 36 o flynyddoedd. Teimlir galar a chollad fawr ar ol y boneddwr haelfrydig hwn.

BARDDONIAETH.

SION TUDUR, o'r Wigwair ger St. Asaph, oedd brydydd enwog. Ei gywyddau a'u gyfansoddiadau ereill, ydynt yn dwyn nodau o athrylith a gallu barddonawl, ac yn llawn o ffraethder a bywiogrwydd synwyr. Bu farw yn 1602.

CYWYDD Y CYBYDD A'R HAEL.

Y CYBYDD.

Y CYBYDD, fab diffydd dig,
Crwn uffernol, crin ffyrnig ;
Fab chwant i gael y fantais,
Fab poen byth, fab hen ei bais,
Fab cul llwm, fab cael y llôg,
Fab oer iawn, fab arianog,
Fab ewinog, fab anhael,
Fab prudd ei wên, fab rhodd wael,
Fab gwan draul, ddidraul ddodrefn,
Fab llym, gwael, fab llwm ei gefn,
Fab a'i fittel ddihelaeth,
Fab hwyr lles, fab bara llaeth,
Fab diras dig, fab trist wên,
Fab del yw, fab di-lawen,
Fab saith glwm pwrs, fab syth-glust,
Fab craff iawn, fab c'weirio ffust,
Fab clot yn, fab clwt hen-aur,
Fab cau 'i ddrws, fab cuddio'i aur,
Fab llechu'r ŵyl, fab llechwrus,
Fab cyrrith grwn, fab carth grys
Fab cecrus, fab rhwystrus frad,
Fab siwrl egr, fab sur lygad,
Fab truth was, fab torth eisin,
Fab llogi'r aur, fab llaw grin,
Fab gwenwyn, fab y geiniog,
Fab bawbeth, fab casbeth cŏg,
Fab rhy ddig, fab prudd ei wên,
Fab hir lythyr, fab ber lathen,
Fab rhawn-ddig, fab o'r hen-ddull,
Fab llawes ddofn, fab llaes ddull,
Fab anhawddgar i'w garu,
Fab ffrom ddig, fab uffern ddu.

YR HAEL.

Haeledd fab gwirionedd gras,
Hylaw arddwrn, hil urddas,
Fab duwiolwych, fab dilyth,
Fab rhoi budd, fab parhau byth,
Fab llawn nerth, fab chwerthin,
Fab haedd draw, fab hawdd ei drin,
Fab diau fawl, fab da ei fyd,
Fab rhoddfawr na fo pruddfyd,
Fab cyfion fendithion da,
Fab y gardod, fab gwrda,
Fab dillad, fab diwallus,
Fab bwrdd llawn, fab harddu llys,
Fab rhwydd-bwrs, fab rhy haedd-barch,
Fab coel pawb, fab cael y parch
Fab Rhydderch hael, fab rhudd-aur,
Fab rhoi'n wych, fab rhanu aur,
Fab serchog, fab rhywiogrwydd,
Fab hwylus waith, fab hael swydd,
Fab hwyr adwyth, fab breu-deg,
Fab gwin i'w dŷ, fab gwên deg,
Fab daionus, fab dinag,
Fab llwydd waith, fab llaw ddiwag,
Fab caredig, fab croywdon,
Fab cywir serch, fab câr SION,
Fab caru cerdd, fab cywraint,
Fab difai 'rioed, fab da'i fraint.
Fab bedydd Mair, fab bydol
Yw ef, a mab nef yn ol.

SION TUDUR.

CRIST A'R GWR IEUANGC.

ALLEIRIAD.

"ATHRAW da, pa beth a wnaf
Fel byddaf yn gadwedig ?
Cadw y gorch'mynion oll
A'th geidw'n ddigolledig.

Pa orch'mynion im' sydd raid
Oll yn ddibaid eu cadw ?
Lladd, godineb, lledrad—rho
Hyn heibio hyd dy farw.

Cam-dystiolaeth byth na ddwg,
Er da, na drwg, na gwobrwy ;
Anrhydedda'th dad a'th fam,
Heb wneuthur cam na gorddwy.

Câr dy gymydog—dyma'r un—
Fel ti dy hun o'r galon ;
Ac arddel holl drigolion byd
I ti yn gyd-gym'dogion.

'Gorchymynion hyn a gedwais oll,
Ac yn ddigoll o'm ie'ngctyd ;
Pa beth sydd imi etto 'nol
Er cael tragywyddol fywyd ?

Perffaith, os dymuni fod,
Bydd barod, dos yn union,
Gwerth a feddi oll mewn gwir,
A dyro i'r tylodion.

Wed'yn tyr'd a chanlyn fi,
A thi gei drysor nefol,
Gan' mwy ei werth nag eiddo neb
Ar wyneb byd daearol."

Trist droi wyneb ymaith wnai,
Can's meddai olud lawer :
Nid hawdd yr â'r goludog rai
I deyrnas nef â'i hiawnder

Cwmdu. DEWI DAWEL.

Penybont: Argraffwyd gan William Winstone, yn ei Argraff-dy Cyffredinol, Plwyf Casnewydd, Chwefror, 1849.